



LLAWLYFR Y RHAGLEN ASTUDIO

TYSTYSGRIF I RADDEDIGION

**Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol
(PORTH AGORED a PHRIFYSGOL CYMRU Y
DRINDOD DEWI SANT)**

**LEFEL 6
(60 Credyd)**

**ACADEMI Cymru ar gyfer ARFER
PROFFESIYNOL ac YMCHWIL CYMHWYSOL**

CYFADRAN BUSNES ac IECHYD

2020-2021

**Carfan 10 ymlaen v3
(3.08.20)**

GWYBODAETH BERTSONOL

Enw:

Rhif Dysgwr:

Cyfrinair Moodle:

Mae'n bwysig cadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Bydd hwn yn rhoi mynediad i chi at ystod o ddeunyddiau dysgu y **bydd yn hanfodol i chi eu defnyddio.**

Modiwl:

DSAW6088: Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Cynnwys

CYFLWYNIAD	3
ADBORTH	4
ARHOLWYR ALLANOL	5
BLWYDDYN ACADEMAIDD 2020/2021	6
Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) - MANWL	8
TERMINOLEG Y MODWL	9
ASESU	9
AMGYLCHIADAU ESGUSODOL	9
APELIADAU ACADEMAIDD	10
RHEOLIADAU ASESU	10
CYFRIFOLDEBAU MYFYRWYR YNG NGHYSWLLT Y BROSES ASESU ..	10
YR AMGYLCHEDD DYSGU RHITHWIR (ADRh)	11
ADBORTH ASESU	13
RHAGLEN ASTUDIO	13
POLISI PRESENOLDEB Y BRIFYSGOL	46
CODAU YMDDYGIAD	46
YNGHYLCH ARFER ANNHEG A LLÊN-LADRAD	Error! Bookmark not defined.
LLÊN-LADRAD: RHEOLIADAU, GWEITHDREFN A CHOSBAU	47
LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU	49
GWASANAETHAU MYFYRWYR	50
SGILIAU ASTUDIO	50
CWYNION	51
Atodiad 1:	52
Atodiad 2:	53
Atodiad 3:	55
Atodiad 4:	56
Atodiad 5:	62
Atodiad 6:	64
Atodiad 7:	72

CYFLWYNIAD

Ceir gwybodaeth fanwl yn y llawlyfr hwn am eich Tystysgrif i Raddedigion Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, eich Rhaglen Astudio, ac am y modwl lefel 6 fyddwch yn ei wneud dros y 12-15 mis nesaf.

Mae'r rhaglen hon yn drefniant ar y cyd rhwng Porth Agored, grŵp o 12 Awdurdod Lleol (Atodiad 4) a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (<http://www2.trinitysaintdavid.ac.uk>) i ddarparu cymhwyster ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso. Caiff ei reoleiddio a'i gymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), a'i ddyfarnu gan Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant.

Cyflwynir y Disgrifydd Modwl yn nogfen ategol Cyfeiriadur Modwl.

Mae'n rhaid i bob Gweithiwr Cymdeithasol sy'n cymhwyso ar ôl 1 Ebrill 2016, sy'n gweithio mewn swyddi sy'n ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol, gwblhau'r rhaglen Gyfnerthu yn ystod eu cyfnod cofrestredig cyntaf gyda CGC fel gweithiwr cymdeithasol.

Mae'r Dystysgrif i Raddedigion mewn Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol wedi'i bwriadu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso mewn Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill sy'n cyflogi gweithwyr cymdeithasol. Fel arfer bydd y Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso wedi cwblhau neu ar fin cwblhau blwyddyn gyntaf y Fframwaith Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer. Ym mhob achos, mae'r rhaglen wedi'i bwriadu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol yn hytrach na'r rheini sydd wedi cymhwyso ond sydd yn gweithio mewn maes cysylltiedig ac nid fel gweithwyr cymdeithasol cofrestredig wrth eu gwaith. Pwyslais y rhaglen yw cyfnerthu'r dysgu o'r radd a datblygu unrhyw sgiliau neu wybodaeth sydd ganddynt yn eu maes gwaith arbenigol.

Mae'r cymhwyster ar gael hefyd i weithwyr cymdeithasol cofrestredig sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl seibiant gyrfa ac sydd wedi'u dynodi gan eu cyflogwyr yn ymgeiswyr addas.

Mae Porth Agored a'r Brifysgol wedi ymdrechu i'r eithaf i sicrhau bod y wybodaeth mor gyflawn ac mor gywir â phosibl, ond dylech gadw mewn cof ei bod yn anochel y bydd mân newidiadau yn nhrefniadaeth modylau rhwng y cyfnod cynllunio a'r cyfnod addysgu. Byddwn yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o newidiadau o'r fath, a byddwch yn cael digon o rybudd ymlaen llaw os bydd newid yn digwydd. Byddem hefyd yn ddiolchgar am gael awgrymiadau gennych chi am newidiadau ar gyfer llawlyfrau yn y dyfodol a fyddai o gymorth yn eich barn chi.

Cyhoeddir unrhyw newidiadau/gwybodaeth ar Moodle.

Rheoli a gweinyddu'r cymhwyster:

Uned datblygu gweithlu/hyfforddi pob Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am reoli'r cymhwyster.

Bydd Bwrdd Rheoli Rhaglen yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i ystyried y gwaith o fonitro, darparu, datblygu a safoni'r rhaglen. Mae'r 12 Awdurdod Lleol wedi'u cynrychioli ar Fwrdd Rheoli'r Cymhwyster, ynghyd â chynrychiolwyr o Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd, ac o leiaf un cynrychiolydd o bob un o'r 12 awdurdod, ynghyd ag unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau ei fod yn gallu darparu mentor, arsylwr ac aseswr o'r Awdurdod ar gyfer pob dysgwr sydd wedi cofrestru.

ADBORTH

Mae adborth ar y rhaglen astudio a'r modylau i'w groesawu ac mae'n bwysig a bydd yn ein helpu ni i wella a chyfoethogi eich profiadau dysgu. Cewch chi roi adborth mewn nifer o ffyrdd: trwy'r cynrychiolydd myfyrwyr ar eich rhaglen astudio, trwy'r holiaduron gwerthuso modwl, trwy gyfarfodydd anffurfiol â'ch tiwtor personol, staff addysgu, neu'r Cyfarwyddwr Rhaglen, trwy'r grwpiau ffocws i gael adborth gan fyfyrwyr ar faterion penodol, neu drwy Undeb y Myfyrwyr. Os bydd problemau, mae'n bwysig eich bod chi'n rhannu'r rhain â ni er mwyn i ni allu mynd i'r afael â nhw. Mae eich barn yn werthfawr.

AELODAU STAFF PRESENNOL

Bydd yr aelodau staff isod yn gyfrifol am gynnal eich Rhaglen Astudio:

Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant:

Sarah Loxdale: s.loxdale@uwtsd.ac.uk (Cyfarwyddwr y Rhaglen a Darlithydd, Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol)

Dr Annette Fillery-Travis: a-fillery-travis@pcydds.ac.uk <<mailto:a-fillery-travis@uwtsd.ac.uk>> (Pennaeth, Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol)

Mrs Lowri Harris: l.m.harris@ydds.pcydds.ac.uk (Darlithydd a Chyfarwyddwr Fframwaith Arfer Proffesiynol, Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol)

Mrs Ann Beaumont: a.beaumont@ydds.pcydds.ac.uk (Gweinyddwr)

Porth Agored:

Rheolwyr Hyfforddiant / Rheolwyr Datblygu'r Gweithlu / cydlynnydd ym mhob Awdurdod Lleol – y rhain yw'r pwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer y rhaglen a ddangosir yn Atodiad 4.

CYMORTH YN YSTOD EICH ASTUDIAETHAU

Mentor y gweithle fydd y tiwtor personol ar gyfer y modwl hwn. Dynodir aelod o'r staff academiaidd ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd i weithredu'n bwynt cydwllt cyntaf ar gyfer problemau cymorth. Gellir hefyd ddod o hyd i gymorth pellach trwy adran Gwasanaethau Myfyrwyr.

ARHOLWYR ALLANOL

Mae i bob Rhaglen Astudio a addysgir sy'n arwain at ddyfarniad gan yn Brifysgol, o leiaf un Arholwr Allanol. Prif ddibenion system arholwyr allanol y Brifysgol yw sicrhau'r canlynol:

- y cynhelir pob dyfarniad ar y lefel briodol;
- bod safonau perfformiad myfyrwyr i'w cymharu â safonau ar raglenni tebyg neu bynciau mewn sefydliadau eraill yn y DU y maent yn gyfarwydd â hwy;
- bod y prosesau ar gyfer asesu a phenderfynu graddau yn gadarn ac wedi eu cynnal yn deg.

Caiff myfyrwyr wneud cais am gopi o Adroddiad Arholwr Allanol y flwyddyn flaenorol ar gyfer eu rhaglen astudio trwy gysylltu â Chyfarwyddwr y Rhaglen.

Yr Arholwyr Allanol presennol ar gyfer y Rhaglenni Astudio yw:

Rhaglen Astudio	Arholwr Allanol ar gyfer 2019/20 (enw cyntaf/ cyfenw)	Arholwr Allanol ar gyfer 2018/19 (os yw'n wahanol i'r un presennol)

Tyst Radd Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol	Miriam Leigh	
---	--------------	--

Sylwer na chaiff myfyrwyr gysylltu'n uniongyrchol â'r Arholwyr Allanol heb ganiatâd, a gellid ystyried gwneud hynny'n drosedd disgyblu.

BLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/2020

Caiff blwyddyn academiaidd 2019/2020 ei rhannu yn y modd canlynol:

Semester 1: 21/09/20 - 22/01/21

Semester 2: 25/01/21 - 09/07/21

Sylwer bod y dyddiadau hyn yn amodol ar newid ac yn dibynnu ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig Coronafeirws/Covid-19.

GWYBODAETH AMDANOCH CHI A'CH RHAGLEN ASTUDIO

Mae gwybodaeth amdanoch chi a'ch rhaglen astudio wedi ei chadw gan y Brifysgol ar System Cofnodion ganolog Myfyrwyr a gaiff ei rheoli gan Gofrestrfa'r Brifysgol. Mae'n hanfodol bod gan Gofrestrfa'r Brifysgol gofnod cywir o'ch manylion personol bob amser. Mae'r un mor bwysig sicrhau eich bod wedi eich cofrestru ar y Rhaglen Astudio gywir ar y modylau cywir. Gall methu â diweddarau eich proffil ar MyTSD (eich porth myfyrwyr ar-lein) yn hyn o beth arwain at amrywiaeth o broblemau gan gynnwys:

- oedi cyn cael eich benthyciad myfyriwr;
- methu â chysylltu â chi mewn argyfwng;
- gwrthdaro ar eich amserlen arholiadau;
- ddim yn gallu benthycia deunyddiau o'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu;
- ddim yn gallu defnyddio gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth;

Cymerwch eich amser i wirio'r wybodaeth a ddarparwyd gan Gofrestrfa'r Brifysgol a byddwch yn siŵr i roi gwybod i'r Gofrestrfa am unrhyw wallau neu newidiadau.

STRWYTHUR Y CYMHWYSTER

Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar y canlyniadau dysgu a bennwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y Rhaglen Gyfnerthu o fewn y Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru (Atodiad 5) a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (Atodiad 6).

I gael rhagor o wybodaeth am DAPP, edrychwch ar y ddolen <https://gofalcymdeithasol.cymru/> ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r cymhwyster yn golygu bod dysgwyr yn gallu dangos ar ffurf portffolio eu bod wedi cyfnerthu ac ehangu lefel y cymhwysedd a oedd ganddynt ar adeg cymhwyso.

Pwrrpas y portffolio yw galluogi dysgwyr i ddangos yn eu portffolio sut y maent wedi datblygu eu hymarfer drwy ddefnyddio ymchwil, profiad a hyfforddiant perthnasol ers iddynt gymhwyso ac i fodloni gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru.

AMSERLENNI

Bydd dysgwyr yn ymuno â'r rhaglen mewn un o ddwy garfan a fydd yn dechrau ar adegau penodedig yn ystod y flwyddyn. Fel arfer, disgwylir i ddysgwyr gwblhau'r rhaglen drwy gyflwyno portffolio o fewn cyfnod o 12 mis a fydd wedi'i ddangos yn glir ar y rhestr o ddyddiadau a roddir iddynt yn ystod y sesiwn gynefino.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cyflwyno portffolios yn gynnar, os cytunir ar hynny, er enghraifft, o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth. Fodd bynnag, beth bynnag yw'r amgylchiadau, ni all dysgwyr gyflwyno portffolio cyn pen 9 mis ar ôl dyddiad eu cofrestru ar y rhaglen gan fod rhaid iddynt ddangos tystiolaeth eu bod wedi ymestyn eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy ymgymryd â gwaith sy'n gynyddol gymhleth. Drwy ddiffiniad, ni allent gyflawni hyn pe byddai'r flwyddyn gadarnhau'n llai na 9 mis, neu os gafodd y portffolio ei gwblhau er enghraifft, yn ystod cyfnod sylweddol o absenoldeb pan nad oedd y dysgwr yn y gwaith yn ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol.

COFRESTRU YN Y DRINDOD DEWI SANT:

Gan eich bod yn un o ddysgwyr Y Drindod Dewi Sant, bydd yn hollbwysig bod gan Gofrestrfa'r Brifysgol gofnod cywir o'ch manylion personol bob amser. Mae'r un mor bwysig sicrhau eich bod wedi cofrestru ar y modylau cywir. Pe byddech yn methu â rhoi gwybod i'r Gofrestrfa am unrhyw newidiadau yn y cyswllt hwn, byddai hyn yn debygol o achosi un o'r problemau canlynol, neu bob un ohonynt:

- methu â rhoi gwybodaeth gyffredin i chi;
- methu â benthycu deunyddiau o'r gwasanaeth Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu;
- methu â defnyddio'r gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth;
- methu â chysylltu â chi mewn argyfwng;
- oedi cyn graddio o ganlyniad i beidio â chwblhau digon o gredydau ar y lefel gywir;
- diffyg effeithiolrwydd cyffredinol o ran prosesau gweinyddol sy'n peri oedi i fyfyrwyr eraill.

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig yng nghyd-destun asesu e.e. dyslecsia, eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr ynghylch yr anghenion hynny ar ddechrau'r rhaglen, fel bod modd eu hystyried wrth gynllunio'r asesiad. Mae gwybodaeth ar gael am rôl Gwasanaethau Myfyrwyr ar wefan Y Drindod Dewi Sant.

Canolfan Adnoddau Dysgu

Fel dysgwr, byddwch yn gallu defnyddio holl adnoddau'r brifysgol. I gael y manylion yn llawn, ewch i: <http://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/> sy'n nodi bod holl staff a dysgwyr y Brifysgol yn cael eu defnyddio am ddim, a bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Ganolfan Adnoddau Dysgu at ddibenion cyfeirio neu wneud cais i ymuno.

Adnoddau Awdurdodau Lleol

Mae gan bob Awdurdod Lleol lyfrgell o adnoddau sy'n cynnwys cyhoeddiadau perthnasol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan y Timau Hyfforddiant/Datblygu'r Gweithlu yn eich Awdurdod.

Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) - MANWL

Er bod eich rhaglen yn cynnwys dod i gysylltiad â phlant a/neu oedolion sy'n agored i niwed, a'ch Awdurdod Lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru fydd yn rheoli'r holl ofynion ynghylch gwiriad DBS (Manwl).

Yn rhan o weithdrefnau pob rhaglen ynghylch DBS, bydd gofyn, fel arfer, i fyfyrwyr sy'n parhau i roi gwybod i'w Cyfarwyddwr Rhaglen ar unwaith am unrhyw newid yn eu statws o ran euogfarnau troseddol.

Gofynnir hefyd i chi lenwi hunan ddatganiad ffurfiol yn ystod y cyfnod cofrestru ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd sy'n cyfnerthu eich statws o ran euogfarnau troseddol.

TERMINOLEG Y MODWL

Lefel Astudio

Mae lefel wedi ei neilltuo i bib modwl er mwyn diffinio safon ei galwad academiaidd yn unol â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n ymgorffori Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Nid yw'r lefel o reidrwydd yn gyfystyr â blwyddyn, er yn aml iawn, Lefel 4 fydd blwyddyn gyntaf Rhaglen Astudio. Lefel 5 fydd yr ail flwyddyn, a lefel 6 fydd y drydedd flwyddyn. Mae nodweddion sylfaenol lefelau astudio perthnasol wedi eu nodi gan Lywodraeth Cymru ac maent ar gael ar ei gwefan

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/level-descriptors.pdf>

ASESU

Ar ddechrau pob modwl, bydd tiwtoriaid yn darparu manylion llawn ar Moodle am y modd y cewch chi eich asesu yn y modwl hwnnw. Bydd hyn yn cynnwys briff asesu llawn a chanllawiau ar y meini prawf a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer marcio eich gwaith ynghyd â gwybodaeth ynghylch pryd y dylid cynnal yr asesiadau a'r amser trosi adborth ar gyfer yr asesiadau. Bydd hefyd yn rhoi manylion sut y byddwch yn gallu trafod yr adborth ar eich gwaith a'ch perfformiad a beth sydd i'w wneud os oes gennych unrhyw gwestiynau

Mae angen cyflwyno'r holl waith cwrs ysgrifenedig a asesir ar ffurf copi electronig trwy Turnitin; darperir cyfarwyddiadau amgen gan y Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer unrhyw ffurfiau ar waith cwrs na ellir eu cyflwyno trwy gyfrwng Turnitin.

Cynigia'r Brifysgol raglenni yn Gymraeg a Saesneg. Y disgwyliad arferol yw y cewch eich asesu yn yr un iaith â'r un y darperir y modylau ynddi. Os ydych wedi cael eich dysgu yn Saesneg ac yn dymuno cael eich asesu yn Gymraeg, neu'r gwrthwyneb, dylech ymgynghori â'ch Cyfarwyddwr Rhaglen am yr opsiynau sydd ar gael i chi.

Mae modd cyflwyno'r holl ddeunyddiau asesu a'u hasesu yn Gymraeg, Saesneg, neu gyfuniad o Gymraeg a Saesneg. Caiff eich gwaith ei farcio gan asesydd sydd â chymwysterau addas o Awdurdod arall. Ni chaiff cyflwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir trwy gyfrwng y Saesneg.

Cewch gadarnhad o'ch marciau asesu ar ddiwedd y rhaglen. Bydd unrhyw farciau a ryddheir cyn cymeradwyaeth ffurfiol o'ch marciau gan y Bwrdd Arholi Dilyniant / Dyfarniadau yn amodol.

AMGYLCHIADAU ESGUSODOL

Os ydych o'r farn y gallai amgylchiadau esgusodol fod wedi cael effaith niweidiol ar eich gallu i gwblhau gwaith cwrs neu arholiadau, dylech ddilyn

gweithdrefnau'r Brifysgol o ran Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer Darpariaeth a Addysgir, sydd i'w gweld yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol ac sydd yn rhan o'r Polisi Amgylchiadau Lliniarol:

<http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/>

Anghenion arbennig yng nghyd-destun asesu

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig o ran asesu, eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr ynghylch yr anghenion hynny ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, fel bod modd drafftio Datganiad o Fesurau Cydbwysu yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer asesu myfyrwyr sydd ag anghenion arbennig.

<http://www.uwtsd.ac.uk/services-for-disabled-students/>

Sylwer bod y cyfnod rhwng diwedd arholiadau'r haf a diwedd tymor yr haf yn gyfnod astudio annibynnol i'w ddefnyddio i baratoi ar gyfer eich blwyddyn astudio nesaf. Bydd Cyfarwyddwr y Rhaglen yn rhoi rhagor o fanylion i chi.

APELIADAU ACADEMAIDD

Ceir gwybodaeth ynghylch sut i apelio yn y 'Weithdrefn Apeliadau Academaidd' ym Mhenod 13 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac mewn dogfennau ategol sydd wedi'u cyhoeddi yn adran y Swyddfa Academaidd ar wefan y Brifysgol:

<http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/gweithdrefnau-ar-gyfer-apeliadau-academaidd-cwynion-ac-achosion-eraill-myfyrwyr/>

Mae cyngor ychwanegol ar gael gan Undeb y Myfyrwyr. Mae'n bwysig iawn i chi nodi'n ofalus ar ba seiliau y gellir apelio a'ch bod yn cyflwyno'ch apêl ar y ffurflen briodol oherwydd ni ellir prosesu apeliadau anghyflawn neu annarllenadwy.

RHEOLIADAU ASESU

Gellir gweld y rheolau a rheoliadau ar gyfer asesu'ch Rhaglen Astudio ym Mhenodau 6 a 7 o Lawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol, y ceir copi ohono yn adran y Swyddfa Academaidd ar y wefan:

<http://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/>

CYFRIFOLDEBAU MYFYRWYR YNG NGHYSWLLT Y BROSES ASESU

Rydych chi'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn:

- i) Eich bod wedi eich cofrestru'n gywir ar eich rhaglen astudio (gan gynnwys ailgofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd ar ôl cofrestru'n gychwynnol).
- ii) Eich bod yn darllen ac yn deall y wybodaeth sydd wedi'i darparu am y dull o'u hasesu, am y dull o benderfynu ar eu dyfarniad terfynol, ac am y camau i'w cymryd os cewch anawsterau yng nghyswllt asesu.
- iii) Eich bod yn rhoi cynnig ar bob elfen asesu mewn modwl.

iv) Eich bod yn dod i arholiadau a digwyddiadau asesu eraill, gan gynnwys digwyddiadau ailarholi ac ailasesu, yn ôl yr angen; a'ch bod ar gael i ddod i arholiadau llafar os bydd angen rhwng y dyddiadau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer dechrau a diwedd tymhorau neu semestrau, neu ar ddyddiad arall y rhoddi gwybod i chi amdano ymlaen llaw.

v) Eich bod yn cyflwyno gwaith i'w asesu yn ôl y gofyn ac yn unol â'r fformat a therfyn amser penodedig.

vi) Eich bod yn hysbysu eich Cyfarwyddwr Rhaglen neu Wasanaethau Myfyrwyr am unrhyw anabledd neu nam hirdymor a all alw am wneud darpariaethau arbennig ar gyfer asesu.

vii) Eich bod yn dod yn gyfarwydd â diffiniad y Brifysgol o arferion annheg ac yn ymgymryd ag asesiadau heb geisio cael mantais annheg.

viii) Eich bod yn dilyn y gweithdrefnau penodedig os byddant yn profi amgylchiadau esgusodol neu os ydynt yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad gan Fwrdd Arholi.

ix) Eich bod yn cadw copi o waith a gyflwynwyd i'w asesu os yw hynny'n bosibl.

x) Eich bod yn trefnu bod eich gwaith ar gael ar gyfer samplu at ddibenion arholi allanol ac ar gyfer archifo.

YR AMGYLCHEDD DYSGU RHITHWIR (ADRh)

Moodle yw Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh) y Brifysgol. Defnyddir y ADRh ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae dysgwyr **cofrestredig** yn gallu ei ddefnyddio mewn unrhyw le yn y byd drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a phorwr gwe.

Gall myfyrwyr ddefnyddio Moodle i wneud y canlynol:

- Cael gafael ar ddeunyddiau cwrs
- Hwyluso cyfathrebu rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid
- Tasgau gweithdai cyfnerthu
- Cymryd asesiadau ar-lein sydd â chyfleusterau marcio ac adborth awtomatig

Gellir defnyddio Moodle i wneud tasgau gweinyddu megis:

- Dangos hysbysiadau e.e. newid darlith/leoliad/dyddiadau
- Cyflwyno aseiniadau'n electronig
- Gweinyddu arolygon ar-lein, megis holiaduron modylau

Darperir deunydd dysgu ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh). Cewch arddangosiad ar Moodle yn ystod y cyfnod cynefino. Yn ogystal, cewch gyfrinair er mwyn manteisio arno. Cadwch hwn yn ddiogel. Mae lle ar gyfer ar ddechrau'r Llawlyfr Rhaglen Astudio i gadw cofnod o wybodaeth bwysig.

Sut i gael Mynediad:

Cewch fynd i Moodle trwy 3 gwahanol ffordd:

1. Trwy HWB

Ewch i sgrin arddangos MyDay naill ai trwy fewngofnodi ar un o gyfrifiaduron y campws ac agor Internet Explorer, neu drwy fynd i

<http://myday.uwtsd.ac.uk> trwy unrhyw borwr neu ddyfais sy'n gysylltiedig â'r rhyngwrdd. Cliciwch ar deil Moodle.

2. Trwy Wefan y Brifysgol

EWCH I <http://uwtsd.ac.uk> ac wedyn dewis Cysylltiadau Cyflym (ar y chwith ar frig y sgrin) ac wedyn Moodle

3. Mewnbwn URL

AGORWCH unrhyw borwr ar ddyfais sy'n gysylltiedig â'r rhyngwrdd a mynd i: <http://moodle.uwtsd.ac.uk>

Mewngofnodwch trwy ddefnyddio eich enw defnyddiwr Rhwydwaith a'ch cyfrinair sydd yr un peth â'r rhai a ddefnyddir i ddefnyddio cyfrifiaduron y campws.

Os byddwch yn colli cyrsiau/modylau yn y bloc **My Courses**, cysylltwch â'ch **darlithwyr** i ofyn a ydynt yn defnyddio Moodle. Sylwer y gall gymryd 24 awr i ddata cofrestru fwydo i mewn i Moodle. Os cewch unrhyw broblemau wrth ddod o hyd i adnoddau (amserlenni, nodiadau darlithoedd, briffiau aseiniadau ac ati) cysylltwch â'r **darlithydd** sy'n darparu'r cwrs/modwl.

Os bydd unrhyw broblemau technegol neu negeseuon gwall, cysylltwch â **Desg Wasanaeth TG** trwy'r canlynol:

Gwefan: <https://webhelp.pcydds.ac.uk>

Ffôn: 0300 500 5055

Neu'r e-bost: ITServiceDesk@pcydds.ac.uk

Os bydd unrhyw ohebiaeth, cofiwch gynnwys eich enw ac enw defnyddiwr myfyriwr (eich rhif myfyriwr) ynghyd â manylion eich problem.

Os cewch unrhyw anhawster i fynd ar Moodle, cysylltwch â Sarah Loxdale, Lowri Harris neu Ann Beaumont (manyion cyswllt ar dudalen 4) yn y lle cyntaf: byddant yn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'ch ymholiad.

Sut mae'r rhaglen yn cynrychioli unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr

Mae'r rhaglen wedi ymrwymo i ymdrin â'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau (gofal cymdeithasol), eu teuluoedd a'u gofalwyr mewn modd gweithredol ac ystyrlon wrth ddatblygu, rheoli, cyflwyno ac adolygu'r rhaglen.

Mae'r rhaglen wedi ymrwymo i gynnwys unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau (gofal cymdeithasol), eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac yn parhau i wneud hynny. Yn ogystal â chynrychioli ym mhob cyfarfod rheoli rhaglen, maent hefyd yn rhan o gyfarfodydd datblygu, sydd â chyfrifoldeb penodol dros ymdrin ag elfennau adolygu'r rhaglen. Bydd unigolyn penodol sy'n cynrychioli barn unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau (gofal cymdeithasol), eu teuluoedd a'u gofalwyr yn gwneud sylwadau ar newidiadau a datblygiadau i'r portffolio neu'r cynnwys. Er mwyn tanategu gwerth unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau (gofal cymdeithasol), eu teuluoedd a'u gofalwyr, mae'r partneriaid hefyd yn cytuno bod portffolio'r rhaglen yn cynnwys arsylwi cyswllt cyfranogwyr gydag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau (gofal cymdeithasol), ei deulu neu

ofalwr o fewn proses asesu o ymarfer gwaith cymdeithasol uniongyrchol sy'n parhau am o leiaf 30 munud. Gofynnir am eu caniatâd i wneud hyn o flaen llaw, a bydd yn cael ei wneud gan arsylwr sydd wedi cymhwyso mewn gwaith cymdeithasol gydag o leiaf tair blynedd o brofiad. Fel rhan o'r broses hon, bydd yr arsylwr yn casglu adborth penodol gan yr unigolyn, ei deulu a'r gofalwr ac yn cynnwys hyn fel rhan o'r portffolio.

Fel proses anwytho ar gyfer pob unigolyn newydd sy'n defnyddio gwasanaethau (gofal cymdeithasol), ei deulu a'i ofalwr a ddaw'n rhan o'r rhaglen, bydd mentor yn cael ei ddynodi iddynt i roi'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol iddynt er mwyn gallu rhoi'r cyfarfodydd mewn cyd-destun. Bydd y mentor yn parhau i roi cefnogaeth barhaus iddynt ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau.

ADBORTH ASESU

Anfonir adborth at fyfyrwyr trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd adeg cofrestru. Bydd yr adborth ysgrifenedig yn gwneud sylwadau ar y gwaith cyffredinol ynghyd â darparu adborth datblygiadol.

Bydd y marcio'n canolbwyntio ar sut mae'r darn o waith yn bodloni'r meini prawf marcio a restrwyd yn y llawlyfr hwn.

RHAGLEN ASTUDIO

RHAGLEN ASTUDIO

Tystysgrif Raddedig Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Deilliannau Dysgu'r Rhaglen

Mae'r deilliannau dysgu level 6 ar gyfer Arfer Proffesiynol yn cydymffurfio'n llawn â disgwyliadau ASA FHEQ (2014) ac fe'u datblygwyd mewn perthynas â meincnod yr ASA ar gyfer Busnes a Rheoli (2015). Mae'r deilliannau dysgu wedi eu categorïddio yn y modd canlynol: sgiliau gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau gwybyddol/deallusol (CS), sgiliau ymarferol (PS) a sgiliau allweddol (KS).

Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Bydd modd i raddedigion y rhaglen ddangos:

- KU1 Dealltwriaeth systematig o agweddau allweddol ar eu harfer proffesiynol, gan gynnwys dysgu gwybodaeth gydlynol a manwl, y mae o leiaf rywffaint ohoni gyda'r mwyaf blaenllaw o agweddau diffiniedig y ddisgyblaeth arfer proffesiynol, neu wedi eu llywio gan yr agweddau hyn.
- KU2 Gwybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y pwnc/pynciau sy'n berthnasol i'w harfer proffesiynol.

Mae pob un o'r Deilliannau Dysgu Modwl uchod wedi eu cynnwys yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Sgiliau Gwybyddol

Bydd modd i raddedigion y rhaglen wneud y canlynol:

- CS1 Cyrchu, gwerthuso a gwneud sylwadau ar agweddau penodol ar ymchwil cyfredol, neu ysgolheictod uwch cyfwerth, yn eu harfer proffesiynol, gyda gwerthfawrogiad o ansicrwydd, amwysedd a chyfyngiadau gwybodaeth.
- CS2 Dangos meddwl cysyniadol a beirniadol, dadansoddi, cyfuno a gwerthuso tybiaethau, cysyniadau haniaethol na data (a allai fod yn anghyflawn).
- CS3 Dyfeisio a chynnal dadleuon a/neu ddatrys problemau, gan ddefnyddio syniadau a thechnegau, a rhai o'r rhai gyda'r mwyaf blaenllaw yn eu disgyblaeth arfer proffesiynol.

Mae pob un o'r Deilliannau Dysgu Modwl uchod wedi eu cynnwys yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Sgiliau Ymarferol

Mae graddau ymarfer proffesiynol yn darparu cysylltiad clir rhwng datblygiad y sgiliau perthnasol a chyflogadwyedd/dilyniant gyrfaol graddedigion. Bydd modd i raddedigion y rhaglen allu gwneud y canlynol:

- PS1 Defnyddio technegau a sefydlwyd yn gywir o ddadansoddi ac ymholi ynghylch eu harfer proffesiynol i adolygu, cyfnerthu, Estyn a defnyddio eu gwybodaeth a dealltwriaeth, a chychwyn a chyflawni prosiectau.
- PS2 Defnyddio sgiliau ansoddol i drafod data, gwerthuso, amcangyfrif a phroblemau busnes model, swyddogaethau a ffenomena.
- PS3 Cyfleu gwybodaeth, syniadau, problemau ac atebion i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol.

Mae pob un o'r Deilliannau Dysgu Modwl uchod wedi eu cynnwys yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Sgiliau Allweddol

Bydd modd i raddedigion y rhaglen arddangos rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer sicrhau swydd sy'n gofyn am y canlynol:

- KS1 Arfer menter a chyfrifoldeb personol.
- KS2 Y broses o lunio penderfyniadau mewn cyd-destunau cymhleth ac annisgwyl.
- KS3 Chwaeth barhaus am ddatblygu a'r gallu i ddysgu sydd ei angen i gyflawni hyfforddiant priodol pellach sydd o natur broffesiynol neu gyfwerth.

Mae pob un o'r Deilliannau Dysgu Modwl uchod wedi eu cynnwys yn y modwl ar y lefel briodol (gan gymryd i ystyriaeth batrymau astudio unigol).

Lefel 6

Rhaid i bob myfyriwr geisio ennill 60 credyd ar Lefel 6.

Programme Structure

Strwythur: Astudiaeth Ran-amser

Darperir y rhaglen trwy gyfuniad o weithdai a thrwy waith ymarferol a phroffesiynol sy'n seiliedig ar waith. Mae wedi ei strwythuro ar fformat modwlaidd ac mae'r Dystysgrif Raddedig yn cynnwys un modwl 60 credyd sy'n cynnwys elfen orfodol o ddysgu sy'n seiliedig ar waith.

Modylau

Mae manylion modylau yn gywir ar 1 Medi 2020, ac fel rheol, ni fydd newid yn ystod y flwyddyn. Yn yr achos annhebygol y bydd rhaid gwneud newidiadau yn y manylion hyn yn ystod y flwyddyn, cewch wybod am hynny'n ysgrifenedig. Cyflwynir y disgrifyddion modwl yn y ddogfen Cyfeiriadur Modwl atodol.

COD Y MODWL:	DSAW6088
TEITL:	Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol
DYDDIAD:	22/11/2016
LEFEL:	6
CREDYDAU:	60
 COD JACS:	 L500

NOD(AU)

- Cefnogi'r gwaith o bontio ac adeiladu ar y dysgu a gafwyd yn y radd gwaith cymdeithasol.
- Rhoi cyfleoedd i ymarfer sgiliau allweddol, gan gynnwys y rheini nad oedd ond cyfle cyfyngedig i'w hymarfer mewn lleoliad dysgu ymarfer neu le nad oedd lleoliad dysgu ymarfer yn lle addas i'w hymarfer.

CANLYNIADAU DYSGU

Mae'r modwl hwn yn cydymffurfio â'r canlyniadau dysgu a nodwyd yn *Dysgu ac Addysgu Proffesiynol Parhaus: Fframwaith ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru (Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gyfnerthu)* (Chwefror 2012) Gofal Cymdeithasol Cymru, sef gofynion diffiniol Gofal Cymdeithasol Cymru.

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, disgwylir y bydd y dysgwr yn dangos y gallu i wneud y canlynol:

- dadansoddi'n feirniadol wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau;
- cydweithio ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalcwyr a gweithwyr proffesiynol eraill;
- sicrhau ymyriad addas a defnyddio crebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

CYNNWYS DANGOSOL

Bydd sesiynau'n cynnwys cyflwyniad ar:

- Mae'r modwl yn rhaglen astudio bwrpasol sy'n seiliedig ar y fframwaith DAPP ac sy'n cynnwys canlyniadau dysgu o bwys proffesiynol wedi'u diffinio a'u cyfiawnhau yn unigol.

- Bydd y gwaith yn cynnwys trosolwg dadansoddol o'r farn gyfredol yng nghyswllt fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chanllawiau sy'n cael eu defnyddio i lywio arferion asesu. Bydd dysgwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfleoedd dysgu er mwyn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau er mwyn cyflawni amrywiaeth o asesiadau a chofnodi gwybodaeth asesu er mwyn llywio penderfyniadau. Byddant yn gallu gwneud penderfyniadau proffesiynol ar sail gwybodaeth asesu a defnyddio myfyrion beirniadol i werthuso dadansoddiad personol mewn asesiadau gwaith cymdeithasol.
- Bydd gwerthusiad cynhwysfawr o ddulliau cyfathrebu yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalmwyr ac yn gweithio gyda hwy i'w galluogi i gael mewnbwn i'r penderfyniadau a wneir (amdanynt) a gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill. Bydd myfyrion feirniadol ar eu gwaith cydweithredol eu hunain yn agwedd hanfodol ar gyfathrebu.
- Bydd y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei thrafod a'i dadansoddi. Byddwn yn edrych ar foeseg gwaith cymdeithasol gan roi pwyslais ar werthoedd penodol sy'n sail iddi, a fydd yn sicrhau darpariaeth o safon uchel sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r unigolyn, gan ymchwilio a'i dangos ar y lefel briodol. Disgwylir i ddysgwyr ddangos gwerthfawrogiad beirniadol o swyddogaeth gwaith cymdeithasol proffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion a phlant gan reoli eu rôl fel gweithwyr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth yr un pryd. Bydd y gallu i arfer swyddogaeth gwaith cymdeithasol proffesiynol mewn ymyriadau diogelu a'u cyfraniad i brosesau cyfreithiol o fewn cylch gwaith y gweithiwr cymdeithasol proffesiynol yn cael eu hystyried a'u hymarfer.
- Yn unol â Dysgu ac Addysgu Proffesiynol Parhaus: Fframwaith ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru (Gofynion ar gyfer y Rhaglen Gyfnerthu) © (Chwefror 2012) Gofal Cymdeithasol Cymru, rhaid i'r portffolio ddangos amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n cynnwys:
 - gwaith ymchwil a thystiolaeth gyfredol;
 - safbwyntiau'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalmwyr;
 - deddfwriaeth a pholisïau cyfredol;
 - y cyd-destun rhyngbroffesiynol;
 - Y Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol;
 - iaith, deddfwriaeth, diwylliant, daearyddiaeth a sefydliadau yng Nghymru;
 - y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol;
 - asesiad o ymarfer a dysgu gan Weithiwr Cymdeithasol cofrestredig.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Yn y sesiynau addysgu bydd dysgwyr yn dysgu am y cysyniadau, egwyddorion ac arferion perthnasol. Yn y tiwtorialau cyflwynir enghreifftiau ymarferol ar gyfer cymhwyso, trafod a gwerthuso.

Mae'r addysgu ar gyfer y modwl wedi'i rannu fel a ganlyn:

Math o weithgarwch	Oriau	Canran
Dysgu wedi'i amserlennu	120	20%
Dysgu annibynnol	120	20%
Dysgu yn y lleoliad – Ymarfer Proffesiynol / seiliedig ar waith	360	60%
CYFANSWM	600	100%

ASESU

Bydd 100% o'r marc asesu terfynol yn cael ei ddyrannu'n Benodol i'r Modwl

Portffolio - 7,800 o eiriau sy'n cynnwys tystiolaeth o Ymarfer Proffesiynol a goruchwyliaeth broffesiynol (5,000 o eiriau neu waith cyfatebol)

- Mae rhifau'r adrannau yn cyfateb i'r manylion penodol ym Mhortffolio'r Dysgwr ar gyfer Rhaglen Gyfnerthu'r Porth Agored.
- Mae pob elfen asesu'n orfodol.
- Mae'r gweithgareddau / gweithredoedd / meysydd / adrannau sydd heb eu nodi'n benodol yma yn rhan o'r elfen Goruchwyliaeth Broffesiynol orfodol.

Tasg Asesu 1 - cyfanswm o 1,300 o eiriau: Adolygu Datblygiad a Myfyrio ar Ddatblygiad (Adrannau 2 a 6 y Portffolio) (15%)

Tasg Asesu 2 - 1,600 o eiriau: Arsylwi Ymarfer Gwaith Cymdeithasol a myfyrio beirniadol perthnasol (Adran 3 y Portffolio) (20%)

Tasg Asesu 3 - 4,000 o eiriau: Diogelu, asesu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth Astudiaeth Achos (Adran 4 y Portffolio) (50%)

Tasg Asesu 4 - 900 o eiriau Diogelu (Adran 5 y Portffolio) (15%)

Noder:

1. Rhaid i Dasg Asesu 3 fod yn seiliedig ar eich maes gwaith eich hun a rhaid i Dasg Asesu 4 fod am faes nad yw'n brif ffocws gennych h.y. os mai Diogelu Plant yw eich prif faes gwaith (tasg 3), yna rhaid i dasg 4 fod am ddiogelu oedolion, ac fel arall os yw 3 am oedolion. Mae Tasg Asesu 4 hefyd angen i chi gymharu trefniadau rhwng diogelu oedolion a phlant.

2. Wrth ysgrifennu Tasgau Asesu 3 a 4, sicrhewch eich bod yn cyfeirio'n **brïodol** at nodweddion ac anghenion Cymru, ei hieithoedd, diwylliant, daearyddiaeth a sefydliadau a deddfwriaeth. Mae Atodiad 7 yn cynnwys

gwybodaeth ynglŷn â pha ddeilliannau dysgu sydd angen tystiolaeth fesul adran yn y portffolio.

Crynodeb o'r Dulliau Asesu

Math o weithgarwch	Canran
Ysgrifenedig	0
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ESD)

A yw'r modwl yn cyfrannu at ESD?	Ydy
	Nac ydy
Os ydy, nodwch fanylion bras (dim mwy na 100 o eiriau): Mae'r modwl hwn yn cynorthwyo i ddiwallu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sy'n cynnwys Cymru gydnerth, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol. Mae'r modwl hefyd yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth yn weithredol, yn eu helpu i'w paratoi ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol ac i archwilio a gwerthuso cynlluniau ar gyfer y dyfodol o fewn y proffesiwn.	

LLYFRYDDIAETH – DARLLEN AWGRYMEDIG AC ADNODDAU ERAILL

Llyfrau

Mae'r rhestr hon o deitlau llyfrau yn gyfuniad o ddeunydd sydd naill ai ar gael fel e-lyfrau, neu fel copïau caled. Gallwch gael mynediad i e-lyfrau drwy Moodle. Mae copïau o'r holl deitlau llyfrau ar gael i'w benthg gan dîm hyfforddi eich Awdurdod Lleol.

- Adams, R., Dominelli L. and Payne, M. (2009) *Social Work: Themes, Issues and Critical Debates*, Basingstoke: Palgrave MacMillan.
- Brammer, A. (2009) *Social Work Law*, London: Longman.
- Cocker, C. and Allain, L. (eds.) (2010) *Advanced social work with children and families*, Exeter: Learning Matters.
- Crawford, K. (2012) *Interprofessional Collaboration in Social Work Practice*, London: Sage.
- Davies, L. and Nora, D. (2008) *Proactive child protection and social work*, Exeter: Learning Matters.
- Hothersall, S. and Maas-Lowit, M. (2010) *Need, Risk and Protection in Social Work Practice*, Exeter: Learning Matters.
- Howe, L, Gray, I (2013) *Effective Supervision in Social Work*. Exeter: Learning Matters
- Knott, C. and Scragg, T. (2007) *Reflective Practice in Social Work* (Second Edition), Exeter: Learning Matters.
- Koprowska, J. (2010) *Communication and Interpersonal Skills in Social Work* (Third Edition), Exeter: Learning Matters.
- Lawrence, S., Lyons, K., Simpson, G. and Huegler, N. (2009) *Introducing International Social Work*, Exeter: Learning Matters.
- Lindsay, T (2013) *Social Work Intervention*. Exeter: Learning Matters
- Mantell, A. (ed.) (2009) *Social Work Skills with Adults*, Exeter: Learning Matters.
- Mantell, A. (2013) *Skills for Social Work Practice*. Exeter: Learning Matters
- Marting, R (2011) *Social Work Assessments*. Exeter: Learning Matters
- Mathews, I. and Crawford, K. (2011) *Evidence-based Practice in Social Work*. Exeter: Learning Matters.
- Morris, K (ed.) (2008) *Social Work and Multi-Agency Working – Making a difference*, Bristol: The Policy Press.
- O'Loughlin, M. and O'Loughlin S. (2005) *Social work with children and families*, Exeter: Learning Matters.
- Parker, J., Bradley, J. and Bradley, G. (2007) *Social Work Practice – Assessment, Planning, Intervention and Review (Third Edition)*, Exeter: Learning Matters.

Rutter, L. and Brown, K. (2011) *Critical thinking and professional judgement for social work, (Third Edition)*, Exeter: Learning Matters.
Schön, D., (1983) *The Reflective Practitioner: How Professionals Think in Action*, New York: Basic Books.
Scragg, T. and Mantell, A. (eds.). (2011) *Safeguarding adults in social work*, Exeter: Learning Matters.
Teater, B. (2010) *An Introduction to Applying Social Work Theories and Methods*, Maidenhead: Open University Press.
Warren, J. (2003) *Service User and Carer Participation in Social Work*, Buckingham: Open University Press.
Whittaker, A. (2012) *Research Skills for Social Work*, Exeter: Learning Matters.

Gwefannau

SCIE (Y Sefydliad dros Ragoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol):

<http://www.scie.org.uk/>

British Journal of Social Work: <http://bjsw.oxfordjournals.org/>

Gofal Cymdeithasol Cymru / Social Care Wales: <https://socialcare.wales/>

Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru

<https://socialcare.wales/resources/>

Cyfraith Plant i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru:

<http://www.cgymru.org.uk/cyhoeddiadau-ac-adnoddau/cyfraith-plant>

Davies C. Dwy iaith, Dau Ddewis?:

https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Different-Words-Different-Worlds.pdf

‘They all speak English anyway’. CD ar gael o’r uned hyfforddi dysgwyr neu yn uniongyrchol drwy wefan Gofal Cymdeithasol Cymru,

<http://www.cgymru.org.uk>

Codi Safonau: Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2005).

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddfwriaeth a Pholisi

LLC (2012) Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), Caerdydd: LIC.

WG (2012) National Assembly for Wales (Official Languages) Act, Cardiff: WG.

Welsh Language (Wales) Measure 2011.

<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>

Deddf Llywodraeth Cymru 2006. *Creu’r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru* (LICC, 2004)

<https://socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/making-the-connections-delivering-better-public-services-for-wales>

Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol (LICC, 2007).

<https://socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/fulfilled-lives-supportive-communities-a-strategy-for-social-services-in-wales-over-the-next-decade>

LIC (2012) *Mwy na Geiriau / More than just Words*, Caerdydd: LIC.

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Efallai y bydd deunyddiau ychwanegol ar gael ar Moodle ac argymhellir darllen pellach yng nghyswllt meysydd eraill penodol sydd i'w hastudio.

DSAW6088: Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

ASESU

Ar ddechrau'r rhaglen, rhoddir yr holl fanylion i chi am y dulliau o'ch asesu. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau clir ar y meini prawf ar gyfer marcio'ch gwaith.

Bydd cymaint â phosibl o'r rhaglen ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cyflwyno ac asesu'r holl ddeunyddiau asesu yn Gymraeg ac, os bydd angen, gofynnir i aseswr o awdurdod arall edrych ar waith os nad oes rhywun addas yn awdurdod y dysgwr.

Byddwch yn cael trawsgrifiad o'ch marciau asesu ar ôl y Bwrdd Arholi. Sylwer mai marciau amodol yw unrhyw farciau a gaiff eu rhyddhau cyn eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Arholi.

Bydd yr asesiad penodol o'r tasgau ysgrifenedig wedi'i ategu drwyddo draw gan ymarfer yn y gweithle sy'n unol â gofynion y proffesiwn a Chod Ymarfer Proffesiynol. Mae llwyddo i gymhwyso'n ymarferol yn elfen orfodol o'r cymhwyster hwn, a rhaid i hyn gael ei wirio gan reolwr y dysgwr yn adran 8 y Portffolio yn unol â gofynion y Fframwaith Tair Blynedd o Ymarfer.

Disgrifir y meini prawf ar gyfer pob Tasg Asesu (Adrannau yn y Portffolio a Thasgau cysylltiedig) yn y tudalennau sy'n dilyn.

- Mae'r meini prawf Penodol ar gyfer marcio yn ymwneud â chanlyniadau'r modwl a'r gofynion o ran y portffolio - 100%.

Rhaid i bob Tasg Asesu yn y rhaglen dderbyn isafswm marc ar wahân o 40% er mwyn cwblhau'r holl gymhwyster yn llwyddiannus.

NODYN PWYSIG I'CH ATGOFFA:

- Mae'n bwysig iawn bod dysgwyr yn llwyr ddeall y canllawiau yn y Portffolio a'r Llawlyfr hwn ar gyfrinachedd. Y dysgwr sy'n gyfrifol am gynnwys y portffolio. Rhaid i ddysgwyr beidio â dibynnu ar y ffaith y bydd enghreifftiau posib o dor-cyfrinachedd yn cael eu nodi wrth iddynt dderbyn adborth ar eu gwaith mewn gweithdai neu sesiynau eraill. Felly, cyn eu cyflwyno'n derfynol, mae'n hanfodol bod dysgwyr yn gwirio eu portffolios yn ofalus i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r gofynion o ran cyfrinachedd. Bydd unrhyw enghraifft/enghreifftiau o dorri ar gyfrinachedd yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniad yr asesiad oherwydd gellir tynnu marciau. Gellir canfod mwy o wybodaeth am hyn ar dudalen 31 y Llawlyfr. Os fyddant yn torri rheolau'r canllaw cyfrinachedd, dylai dysgwyr nodi y bydd uchafswm o 5 marc yn cael eu tynnu o bob tasg a asesir am fân dor-amod a gallai enghraifft fwy difrifol arwain at y portffolio cyfan yn methu ac yn cael ei gyfeirio at y cyflogwr.
- Mae canllaw clir ym mhob adran o'r portffolio ynghylch nifer y geiriau y mae disgwyl i chi eu hysgrifennu a disgwylir i chi nodi union nifer y geiriau a ddiweddd pob adran (e.e. 3,000 o eiriau) fel y bydd yr aseswr yn gallu

cymharu hyn â'r gofyniad. Cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion o ran nifer y geiriau ar gyfer pob adran, er bod goddefiant o + neu – 10%, dylai dysgwyr nodi y gallai enghraifft ddifrifol o dorri rheol y canllaw nifer geiriau arwain at gosb o uchafswm o 5 marc yn cael eu tynnu o bob tasg a asesir.

- Os gwelir unrhyw enghraifft o lôn-ladrad, bydd y Brifysgol yn ei thrin fel mater difrifol. Ceir cyngor ar hyn yn Llawlyfr y Rhaglen. Dylai dysgwyr gofio hefyd, pe byddai cyhuddiad o'r fath yn cael ei ddwyn yn eu herbyn, y bydd cyflogwyr bron yn sicr o'i ystyried yn groes i'r Cod Ymarfer Proffesiynol ac yn delio ag ef yn unol â hynny.

Meini Prawf Marcio Penodol – DSAW6088

Tasg 1 - Adolygu Datblygiad a Myfyrio ar Ddatblygiad (Adrannau 2 a 6 y Portffolio)
RHAGORIAETH – 70+
Mae adrannau 2 a 6 o safon ardderchog. Dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion dysgu mewn perthynas ag ymarfer proffesiynol ers cymhwyso. Mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau yn ardderchog ar ôl cael eu trafod yn drylwyr gyda gweithwyr priodol yn y gweithle. Mae anghenion datblygol o ran cydweithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid, dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a defnyddio crebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth hefyd wedi cael eu trafod ac mae anghenion dysgu wedi'u hadnabod a'u cyfiawnhau'n gynhwysfawr. Myfyrio beirniadol ardderchog sy'n ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad cynhwysfawr at yr holl hyfforddiant a dderbyniwyd, ystod eang o'r ddysg a gyflawnwyd, ymchwil cyd-destunol ychwanegol a'r defnydd o oruchwyliaeth. Mae'r gwaith myfyrio'n cael ei wneud drwy ddilyn model o ymarfer adlewyrchol. Ystyriaeth drylwyr o gyflawni anghenion dysgu, a nodwyd ar ddechrau'r rhaglen, wedi'i drafod gyda gweithwyr perthnasol. Mae anghenion dysgu ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer datblygu'n effeithiol fel ymarferydd profiadol wedi'u hadnabod a'u cytuno. Adborth a dderbyniwyd gan amrediad o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wedi cael ei ystyried yn gynhwysfawr o ran effaith ar ymarfer. Sgiliau Academaidd Sgiliau academaidd a deallusol ardderchog, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n ofalus iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil. Defnydd ardderchog o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad cywir at bob ffynhonnell.
TEILYNGDOD 60+-69
Mae adrannau 2 a 6 o safon dda iawn. Dadansoddiad da iawn o anghenion dysgu mewn perthynas ag ymarfer proffesiynol ers cymhwyso. Mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau'n dda iawn ar ôl cael eu trafod gyda gweithwyr priodol yn y gweithle. Mae anghenion datblygol o ran cydweithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid, cymhwyso dadansoddi

wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a defnyddio crebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth hefyd wedi cael eu trafod ac mae anghenion dysgu wedi'u hadnabod a'u cyfiawnhau'n dda iawn.

Myfyrio beirniadol da iawn sy'n ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad da iawn at yr holl hyfforddiant a dderbyniwyd, ystod dda o'r ddysg a gyflawnwyd, ymchwil cyd-destunol ychwanegol a'r defnydd o oruchwyliaeth. Mae'r gwaith myfyrio'n cael ei wneud drwy ddilyn model o ymarfer adlewyrchol. Ystyriaeth dda iawn o gyflawni anghenion dysgu, a nodwyd ar ddechrau'r rhaglen, wedi'i drafod gyda gweithwyr perthnasol. Mae anghenion dysgu ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer datblygu fel ymarferydd profiadol wedi'u hadnabod a'u cytuno. Adborth a dderbyniwyd gan amrediad o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wedi cael ei ystyried yn effeithiol o ran effaith ar ymarfer.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil.

Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.

PASIO 50-59

Mae adrannau 2 a 6 o safon dda.

Dadansoddiad da o anghenion dysgu mewn perthynas ag ymarfer proffesiynol ers cymhwyso. Mae'r rhain wedi'u cyfiawnhau'n dda ar ôl cael eu trafod gyda gweithwyr priodol yn y gweithle. Mae anghenion datblygol o ran cydweithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid, dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a defnyddio crebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth hefyd wedi cael eu trafod ac mae anghenion dysgu wedi'u hadnabod a'u cyfiawnhau'n dda.

Myfyrio beirniadol da sy'n ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad da at yr holl hyfforddiant a dderbyniwyd, ystod dda o'r ddysg a gyflawnwyd, ymchwil ychwanegol a'r defnydd o oruchwyliaeth. Mae'r gwaith myfyrio'n cael ei wneud drwy ddilyn model o ymarfer adlewyrchol. Ystyriaeth dda o gyflawni anghenion dysgu, a nodwyd ar ddechrau'r rhaglen, wedi'i drafod gyda gweithwyr perthnasol. Adborth a dderbyniwyd gan amrediad o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wedi cael ei ystyried o ran effaith ar ymarfer.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academiaidd a deallusol da / boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda a gwelir tystiolaeth o ymchwil.

Defnydd da / boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.

PASIO 40-49

Mae adrannau 2 a 6 o safon dderbyniol.

Adolygiad boddhaol o anghenion dysgu mewn perthynas ag ymarfer proffesiynol ers cymhwyso. Mae'r rhain wedi'u nodi ar ôl cael eu trafod gyda gweithwyr priodol yn y gweithle. Mae anghenion datblygol o ran cydweithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid, dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau a defnyddio crebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth hefyd wedi cael eu trafod ac mae anghenion dysgu wedi'u hadnabod.

Myfyrion derbyniol yn ymdrin â datblygiad proffesiynol yn ystod y rhaglen hon. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at yr hyfforddiant a dderbyniwyd, ystod o'r ddysg a gyflawnwyd, peth ymchwil a'r defnydd o oruchwyliaeth. Mae'r gwaith myfyrion cael ei wneud drwy ddilyn model o ymarfer adlewyrchol. Ystyriaeth o gyflawni anghenion dysgu, a nodwyd ar ddechrau'r rhaglen, wedi'i drafod gyda gweithwyr perthnasol. Adborth a dderbyniwyd gan amrediad o fudd-ddeiliaid, yn cynnwys unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wedi cael ei ystyried o ran effaith ar ymarfer.

Sgiliau Academiaidd

Sgiliau academiaidd a deallusol sylfaenol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dderbyniol a cheir peth tystiolaeth.

Defnydd sylfaenol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at ambell ffynhonnell.

METHU 0-39

Sgiliau Academiaidd

Sgiliau academiaidd a deallusol anfoddhaol, gyda gwybodaeth annigonol o fyfyrion, gwerthuso a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Methu â thrafod damcaniaethau na datrys problemau gyda disgyblaeth. Yn ddisgrifiadol yn bennaf.

Trafferth gyffredinol gyda strwythur a chywirdeb mynegiant gydag ychydig neu dim tystiolaeth o ymchwil. Methu â chyfarwyddo eu dysg eu hunain.

Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda defnydd cyfyngedig o gyfeiriadau.

Tasg 2 - Arsylwad gan unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teulu a'u gofalwyr (Adran 3 y Portffolio)

RHAGORIAETH – 70+

Disgrifiad cynhwysfawr ond cryno o gyd-destun yr arsylwi sy'n ymdrin â holl ofynion y cyd-destun daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol i raddau rhagorol, ac yn dangos perthnasedd llawn o'r holl faterion.

Myfyrio beirniadol ardderchog ar yr ystod o ddulliau cyfathrebu a sgiliau a ddefnyddiwyd gennych yn ystod sesiwn arsylwi ymarfer. Rydych wedi nodi'n amlwg y sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i weithio gyda'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r myfyrio yn dystiolaeth effeithiol iawn o'ch dull person-ganolog, y ffordd yr ydych wedi glynu wrth werthoedd gwaith cymdeithasol, y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, arferion sensitifrwydd diwylliannol, dewis iaith yn cynnwys yr egwyddor "Cynnig Rhagweithiol", ac ymarfer moesegol. Ceir disgrifiad cynhwysfawr o leoliad y sesiynau arsylwi, sy'n cynnwys y cyd-destun daearyddol a'r holl faterion diwylliannol perthnasol a'r amcanion gwaith cymdeithasol. Drwy egluro'r amgylchiadau fel hyn rydych yn sicrhau tystiolaeth iawn o'r sesiwn a'ch bod wedi cyflawni'r holl ymarfer i safon uchel iawn. Mae'r arsylwr, sy'n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau'r arsylwi a'r myfyrio cysylltiedig.

Cyd-destun Cymreig

Myfyrio trylwyr ar brofiadau personol yn darparu dadl resymegol pam fod rhaid i iaith fod yn rhan greiddiol o asesu a darparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys amrediad o esiamplau o'r modd mae cyfathrebu effeithiol yn effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol da mewn perthynas â defnydd o iaith, angen iaith a sensitifrwydd diwylliannol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol ardderchog, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n ofalus iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil.

Defnydd ardderchog o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad cywir at bob ffynhonnell.

TEILYNGDOD 60+-69

Disgrifiad cryno a da iawn o gyd-destun yr arsylwi sy'n ymdrin â holl ofynion y cyd-destun daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol ac yn dangos perthnasedd llawn o'r holl faterion.

Myfyrio beirniadol da iawn ar y defnydd a wnaethoch o nifer o ddulliau cyfathrebu a sgiliau yn ystod sesiwn arsylwi ymarfer. Rydych wedi nodi'r sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i weithio gyda'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r myfyrio yn dystiolaeth o'ch dull person-ganolog, y ffordd yr ydych wedi glynu wrth werthoedd gwaith cymdeithasol, y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, arferion sensitifrwydd diwylliannol, dewis iaith yn cynnwys yr egwyddor "Cynnig Rhagweithiol", ac ymarfer moesegol. Ceir disgrifiad clir o leoliad y sesiynau arsylwi; mae hyn yn cynnwys y cyd-destun daearyddol a materion diwylliannol perthnasol ac amcanion gwaith cymdeithasol. Drwy egluro'r amgylchiadau fel hyn rydych yn sicrhau tystiolaeth o'r sesiwn a'ch bod wedi cyflawni eich holl ymarfer i safon uchel. Mae'r arsylwr, sy'n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau'r arsylwi a'r myfyrio cysylltiedig.

Cyd-destun Cymreig

Myfyrio trylwyr ar brofiadau personol yn darparu dadl dda iawn pam fod rhaid i iaith fod yn rhan greiddiol o asesu a darparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys esiamplau o'r modd mae cyfathrebu yn effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol mewn perthynas â defnydd o iaith, angen iaith a sensitifrwydd diwylliannol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil.

Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.

PASIO 50-59

Disgrifiad da a chlr o gyd-destun yr arsylwi sy'n ymdrin â gofynion y cyd-destun daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol ac yn dangos perthnasedd yr holl faterion.

Trafodaeth dda ynghylch y defnydd a wnaethoch o rai dulliau cyfathrebu a sgiliau yn ystod sesiwn arsylwi ymarfer. Rydych wedi nodi'r sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i weithio gyda'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r drafodaeth yn dystiolaeth o'ch dull person-ganolog, y ffordd yr ydych wedi dilyn gwerthoedd gwaith

cymdeithasol, y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, arferion sensitifrwydd diwylliannol, dewis iaith yn cynnwys yr egwyddor "Cynnig Rhagweithiol", ac ymarfer moesegol. Rydych yn disgrifio lleoliad y sesiynau arsylwi ac yn cynnwys y cyd-destun daearyddol a materion diwylliannol perthnasol ynghyd ag amcanion gwaith cymdeithasol. Drwy egluro'r amgylchiadau fel hyn rydych yn dangos eich bod wedi cyflawni eich ymarfer i safon dderbyniol. Mae'r arsylwr, sy'n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau'r arsylwi a'r myfyrio cysylltiedig.

Cyd-destun Cymreig

Myfyrio ar brofiadau personol yn darparu dadl pam fod rhaid i iaith fod yn rhan greiddiol o asesu. Mae hyn yn cynnwys rhai esiamplau o'r modd mae cyfathrebu yn effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol o ran defnydd iaith, angen iaith a sensitifrwydd diwylliannol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol da / boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda a gwelir tystiolaeth o ymchwil.

Defnydd da / boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.

PASIO 40-49

Amlinelliad o gyd-destun yr arsylwi sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o ofynion y cyd-destun daearyddol, deddfwriaethol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol.

Trafodaeth ynghylch y defnydd a wnaethoch o ddulliau cyfathrebu a sgiliau yn ystod sesiwn arsylwi ymarfer. Rydych wedi cynnwys y sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i weithio gyda'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae hyn yn dangos, er enghraifft, sut yr ydych wedi glynu wrth werthoedd gwaith cymdeithasol a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, arferion sensitifrwydd diwylliannol, dewis iaith yn cynnwys yr egwyddor "Cynnig Rhagweithiol", ac ymarfer moesegol. Rydych yn disgrifio lleoliad y sesiynau arsylwi, sy'n cynnwys y cyd-destun a'r holl faterion perthnasol a'r amcanion gwaith cymdeithasol. Drwy egluro'r amgylchiadau fel hyn rydych yn dangos tystiolaeth o'r sesiwn a'ch bod wedi cyflawni'r holl ymarfer. Mae'r arsylwr, sy'n cadw at bob ystyriaeth foesegol, yn cadarnhau'r arsylwi a'r disgrifiad cysylltiedig.

Cyd-destun Cymreig

Rydych yn myfyrio ar brofiadau personol ac yn trafod yr angen i iaith fod yn fater wrth asesu. Mae rhai esiamplau o'r modd mae cyfathrebu yn effeithio ar ymarfer gwaith cymdeithasol wedi'u cynnwys.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academiaidd a deallusol sylfaenol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dderbyniol a cheir peth tystiolaeth.

Defnydd sylfaenol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at ambell ffynhonnell.

METHU 0-39**Sgiliau Academaidd**

Sgiliau academiaidd a deallusol anfoddhaol, gyda gwybodaeth annigonol o fyfyrrio, gwerthuso a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Methu â thrafod damcaniaethau na datrys problemau gyda disgyblaeth. Yn ddisgrifiadol yn bennaf.

Trafferth gyffredinol gyda strwythur a chywirdeb mynegiant gydag ychydig neu dim tystiolaeth o ymchwil. Methu â chyfarwyddo eu dysg eu hunain.

Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda defnydd cyfyngedig o gyfeiriadau.

Tasg 3 - Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth - Astudiaeth Achos (Prif faes gwaith) (Adran 4 y Portffolio)

RHAGORIAETH – 70+

Astudiaeth achos ardderchog a chynhwysfawr sy'n seiliedig ar waith sy'n ymdrin â holl adrannau'r meini prawf perfformiad a deilliannau dysgu gofynnol, sy'n cadw at y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac yn cyfeirio at ddamcaniaethau gwaith cymdeithasol perthnasol. Caiff y rhain hefyd eu cyflawni i'r un safon uchel. Mae'r astudiaeth achos, sy'n broffesiynol berthnasol, yn dangos yn ddigamsyniol wybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o ymyriadau a'r defnydd o grebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. Mae hefyd yn sicrhau tystiolaeth ohonoch yn cydweithio 'ag eraill' (e.e. unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofawyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill) ar asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn (eich maes gwaith)**. Rydych wedi rhoi ystyriaeth fanwl sy'n fethodolegol gadarn yn y dadansoddiad yn yr asesiad fel sail effeithiol a phriodol iawn i ymyriadau.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Caiff eich maes penodol o wasanaethau cymdeithasol ei gynrychioli'n effeithiol ac mae gennych ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r gofynion deddfwriaethol yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol (e.e. Deddf Hawliau Dynol, deddfwriaeth Confensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Iechyd a Diogelwch, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)).

Cyd-destun Cymreig

Mae myfyrio ar brofiadau personol yn darparu tystiolaeth o'r heriau penodol sy'n codi yn y Sector Gofal yng Nghymru. Mae'n amlwg bod y rhain wedi'u seilio ar safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol benodol yr ymarfer ac maent yn dangos dealltwriaeth o'r diwylliant, sefydliadau a'r ieithoedd a siaredir. Ategir hyn yn rhagorol yng nghyd-destun yr astudiaeth achos a'r cyd-destun a ymchwiliwyd yn ehangach.

Mae'r myfyrio wedi'i seilio'n gadarn ar amrywiaeth eang o ddamcaniaethau priodol sydd wedi'u hategu gan dystiolaeth a ffynonellau. Mae'r ystod eang o ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfoes ac yn berthnasol. Mae'r astudiaeth achos yn dangos dealltwriaeth glir o gyfyng-gyngor a gwrthdaro rhwng gwerthoedd ac rydych yn ymdrin â'r rhain yn drylwyr ac yn eu rheoli'n effeithiol. Roedd y ffordd y cyflwynwyd y canlyniadau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddiwyd a'r myfyrio ar y dysgu, yn ardderchog. Roedd strwythur ac arddull y cyflwyno yn briodol. Defnyddiwyd amrywiaeth dda iawn o eirfa ar y lefel gywir. Astudiaeth achos ardderchog ar y lefel astudio briodol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol ardderchog, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n ofalus iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil.

Defnydd ardderchog o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad cywir at bob ffynhonnell.

TEILYNGDOD 60+-69

Astudiaeth achos da iawn sy'n seiliedig ar waith sy'n ymdrin â'r holl feini prawf perfformiad a deilliannau dysgu gofynnol, sy'n cadw at y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac yn cyfeirio at ddamcaniaethau gwaith cymdeithasol perthnasol. Cyflawnwyd y rhain i safon dda iawn. Mae'r astudiaeth achos proffesiynol perthnasol yn dangos gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth o ymyriadau a'r defnydd o grebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth. Mae hefyd yn dangos tystiolaeth ohonoch yn cydweithio 'ag eraill' (e.e. unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill) mewn asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn (eich maes gwaith)**. Rydych wedi rhoi ystyriaeth sy'n fethodolegol gadarn yn y dadansoddiad yn yr asesiad fel sail briodol iawn i ymyriadau.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Caiff eich maes penodol o wasanaethau cymdeithasol ei gynrychioli'n dda iawn ac mae gennych ddealltwriaeth dda o'r gofynion deddfwriaethol yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol (e.e. Deddf Hawliau Dynol, deddfwriaeth Confensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Iechyd a Diogelwch, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)).

Cyd-destun Cymreig

Mae myfyrio ar enghreifftiau o brofiadau personol yn darparu tystiolaeth o'r heriau penodol sy'n codi yn y Sector Gofal yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u seilio ar safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol benodol yr ymarfer ac maent yn dangos dealltwriaeth o'r diwylliant, sefydliadau a'r ieithoedd a siaredir. Cefnogir hyn yn dda iawn yng nghyd-destun yr astudiaeth achos a'r cyd-destun a ymchwiliwyd yn ehangach.

Mae'r myfyrio wedi'i seilio ar amrediad o ddamcaniaethau sydd wedi'u hategu gan dystiolaeth a ffynonellau. Mae'r ystod o ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfoes ac yn berthnasol. Mae'r astudiaeth achos yn dangos dealltwriaeth glir o gyfyng-gyngor a gwrthdaro rhwng gwerthoedd ac rydych yn ymdrin ac yn rheoli'r rhain yn effeithiol. Roedd y ffordd y cyflwynwyd y canlyniadau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddiwyd a'r myfyrio ar y dysgu, yn dda iawn. Roedd strwythur ac arddull y cyflwyno yn briodol. Defnyddiwyd amrywiaeth o eirfa ar y lefel gywir. Astudiaeth achos da iawn ac effeithiol ar y lefel astudio briodol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil.

Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.

PASIO 50-59

Mae'r astudiaeth achos sy'n seiliedig ar waith yn ymdrin â'r meini prawf perfformiad, deilliannau dysgu, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac yn cyfeirio at rai damcaniaethau gwaith cymdeithasol perthnasol. Cyflawnwyd y rhain i safon dda. Mae'r astudiaeth achos proffesiynol perthnasol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymyriadau a'r defnydd o grebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae hefyd yn dangos tystiolaeth ohonoch yn gweithio 'gydag eraill' (e.e. unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill) mewn asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn (eich maes gwaith)**. Rydych wedi rhoi ystyriaeth gadarn yn y dadansoddiad yn yr asesiad fel sail briodol i ymyriadau.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Ymdrinnir â'ch maes penodol o wasanaethau cymdeithasol yn y drafodaeth ac mae gennych ddealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol (e.e. Deddf Hawliau Dynol, deddfwriaeth Confensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Iechyd a Diogelwch, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)).

Cyd-destun Cymreig

Mae myfyrio ar enghreifftiau o brofiadau personol yn darparu tystiolaeth o'r heriau sy'n codi yn y Sector Gofal yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u seilio ar safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol benodol yr ymarfer ac maent yn dangos dealltwriaeth o'r cyd-destun. Cefnogir hyn yn dda yng nghyd-destun yr astudiaeth achos a'r cyd-destun ehangach.

Mae'r myfyrio wedi'i seilio ar nifer o ddamcaniaethau sydd wedi'u hategu gan dystiolaeth a ffynonellau. Mae'r ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfoes. Mae'r astudiaeth achos yn dangos dealltwriaeth o gyfyng-gyngor a gwrthdaro ac rydych yn ymdrin ac yn rheoli'r rhain. Roedd y ffordd y cyflwynwyd y canlyniadau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddiwyd a'r myfyrio ar y dysgu, yn dda. Roedd strwythur ac arddull y cyflwyno yn dda. Roedd yr eirfa ar y lefel gywir. Astudiaeth achos da ac effeithiol ar y lefel astudio briodol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol da / boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda a gwelir tystiolaeth o ymchwil.

Defnydd da / boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.

PASIO 40-49

Rydych yn ymdrin â'r meini prawf perfformiad ac rydych wedi cyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'r astudiaeth achos yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymyriadau a'r defnydd o grebwyll proffesiynol mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae'n dangos tystiolaeth ohonoch yn gweithio 'gydag eraill', (e.e. unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofawyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill) mewn asesiad yn ymwneud â diogelu **oedolyn/plentyn (eich maes gwaith)**. Rydych wedi rhoi ystyriaeth fanwl yn y dadansoddiad a oedd yn sail i'r ymyriadau.

Cyd-destun Deddfwriaethol

Ymdrinnir â'ch maes penodol o wasanaethau cymdeithasol yn y drafodaeth ac mae gennych beth dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol yn cynnwys deddfwriaeth ddomesig a rhyngwladol (e.e. Deddf Hawliau Dynol, deddfwriaeth Confensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Iechyd a Diogelwch, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)).

Cyd-destun Cymreig

Mae peth myfyrio ar enghreifftiau o brofiadau personol yn cyfeirio at heriau sy'n codi yn y Sector Gofal yng Nghymru. Rhoddir peth ystyriaeth i'r rhain o safbwynt y dysgwr o fewn ardal ddaearyddol benodol yr ymarfer sy'n dangos dealltwriaeth o'r cyd-destun.

Mae'r myfyrio wedi'i seilio ar nifer cyfyngedig o ddamcaniaethau sydd wedi'u hategu gan dystiolaeth a ffynonellau. Mae mwyafrif y ffynonellau y cyfeirir atynt yn gyfoes ac yn berthnasol. Mae'r astudiaeth achos yn dangos dealltwriaeth o gyfyng-gyngor a gwrthdaro. Roedd arddull a strwythur y cyflwyno yn briodol. At ei gilydd, mae'r eirfa yn briodol ac ar y lefel gywir. Astudiaeth achos addas ar y lefel astudio briodol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol sylfaenol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dderbyniol a cheir peth tystiolaeth.

Defnydd sylfaenol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at ambell ffynhonnell.

METHU 0-39

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol anfoddhaol, gyda gwybodaeth annigonol o fyfyrrio, gwerthuso a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Methu â thrafod damcaniaethau na datrys problemau gyda disgyblaeth. Yn ddisgrifiadol yn bennaf.

Trafferth gyffredinol gyda strwythur a chywirdeb mynegiant gydag ychydig neu dim tystiolaeth o ymchwil. Methu â chyfarwyddo eu dysg eu hunain.

Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda defnydd cyfyngedig o gyfeiriadau.

Tasg 4 - Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth - (Nid prif faes gwaith) (Adran 5 y Portffolio)
RHAGORIAETH – 70+ Asesiad ysgrifenedig ardderchog sy'n dangos eich dealltwriaeth o waith diogelu yng nghyswllt oedolyn/plentyn (DDIM yn rhan o'ch maes gwaith). Rydych wedi egluro polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol, leol a sefydliadol perthnasol yn fanwl. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn nodi'r berthynas rhwng systemau ehangach sy'n gysylltiedig â'r maes ymarfer. Mae'r myfyrio ynghylch y gwahaniaethau rhwng gwaith diogelu oedolion a gwaith diogelu plant a'r dadansoddiad wedi'i egluro'n drylwyr. Sgiliau Academaidd Sgiliau academaidd a deallusol ardderchog, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n ofalus iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil. Defnydd ardderchog o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad cywir at bob ffynhonnell.
TEILYNGDOD 60+-69 Asesiad ysgrifenedig da iawn sy'n dangos eich dealltwriaeth o waith diogelu yng nghyswllt oedolyn/plentyn (DDIM yn rhan o'ch maes gwaith). Rydych wedi trafod polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol, leol a sefydliadol. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn nodi'r berthynas rhwng systemau sy'n gysylltiedig â'r maes ymarfer. Mae'r dadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng gwaith diogelu oedolion a gwaith diogelu plant yn briodol. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn nodi'r berthynas rhwng systemau ehangach sy'n gysylltiedig â'r maes ymarfer. Sgiliau Academaidd Sgiliau academaidd a deallusol da iawn, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda iawn ac mae tystiolaeth glir o ymchwil. Defnydd da iawn o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.
PASIO 50-59 Asesiad ysgrifenedig da sy'n dangos eich dealltwriaeth o waith diogelu yng nghyswllt oedolyn/plentyn (DDIM yn rhan o'ch maes gwaith). Rydych

wedi trafod rhai polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol, lleol a sefydliadol.

Mae'r dadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng gwaith diogelu oedolion a gwaith diogelu plant yn briodol. Mae'r disgrifiad, sy'n broffesiynol berthnasol, yn cynnwys y cysylltiad rhwng systemau ehangach sy'n gysylltiedig â'r maes ymarfer.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol da / boddhaol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dda a gwelir tystiolaeth o ymchwil.

Defnydd da / boddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at bob ffynhonnell.

PASIO 40-49

Mae'r asesiad ysgrifenedig yn dangos eich dealltwriaeth o waith diogelu yng nghyswllt **oedolyn/plentyn (DDIM yn rhan o'ch maes gwaith)**. Ceir esboniad o rai polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth genedlaethol.

Mae'n cynnwys trafodaeth sy'n dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r angen i ddeall gwaith diogelu y tu allan i'r maes cyfrifoldeb uniongyrchol.

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol sylfaenol, yn cynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi gwerthusiad adlewyrchol a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

Mae'r gwaith a gyflwynwyd wedi'i strwythuro'n dderbyniol a cheir peth tystiolaeth.

Defnydd sylfaenol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda chyfeiriad at ambell ffynhonnell.

METHU 0-39

Sgiliau Academaidd

Sgiliau academaidd a deallusol anfoddhaol, gyda gwybodaeth annigonol o fyfyrion, gwerthuso a datrys problemau yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol. Methu â thrafod damcaniaethau na datrys problemau gyda disgyblaeth. Yn ddisgrifiadol yn bennaf.

Trafferth gyffredinol gyda strwythur a chywirdeb mynegiant gydag ychydig neu dim tystiolaeth o ymchwil. Methu â chyfarwyddo eu dysg eu hunain.

Defnydd anfoddhaol o ramadeg, sillafu ac iaith gyda defnydd cyfyngedig o gyfeiriadau.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Taflen Adborth ar Asesiad

Enw'r dysgwr:		Modwl – DSW6088 (60 credyd - Lefel 6)														
		Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Tiwtor y Modwl: Sarah Loxdale														
Marciwr Cyntaf:	Penodol i'r Modwl - [100%]														Marc y cytunwyd arno: [%]	
Ail farciwr:	Tasg 1 15%	Tasg 2 20%	Tasg 3 50%	Tasg 4 15%												
% Marciau y cytunwyd arnynt:																
Meini Prawf Penodol i'r Modwl																
	81 +	76 -	70 -	67 -	64 -	60 -	57 -	54 -	50 -	47 -	44 -	40 -	30-39	20-29	1- 19	0
Tasg 1 - Adolygu Datblygiad a Myfyrio ar Ddatblygiad (Adrannau 2 a 6 y Portffolio)																
Tasg 2 - Arsyliw Ymarfer Gwaith Cymdeithasol (Adran 3 y Portffolio)																
Tasg 3 – Diogelu (eich maes gwaith eich hun) Astudiaeth Achos (Adran 4 y Portffolio)																
Tasg 4 – Diogelu (Adran 5 y Portffolio)																
Tystiolaeth o ymarfer yn seiliedig ar waith – Adran 8			Wedi'i gwblhau						Ydy w	*	Nac ydy w					

Crynodeb o dasgau	Pasio / Methu
Tasg 1	
Tasg 2	
Tasg 3	
Tasg 4	

Sylwadau'r Marciwr cyntaf (1):

Tasg 1:

Tasg 2:

Tasg 3:

Tasg 4:

Sgiliau Academaidd a sylwadau cyffredinol:

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Sylwadau'r ail Farciwr (2):

Tasg 1:

Tasg 2:

Tasg 3:

Tasg 4:

Sgiliau Academaidd a sylwadau cyffredinol:

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Safoni:

Ar ôl trafodaeth broffesiynol lle yr ystyriwyd y gwaith cyfan, cytunodd y marciwr cyntaf a'r ail farciwr ar y marciau terfynol mewn trafodaeth safoni **xxxxxxxxxxxxxx**.

Y PORTFFOLIO – Nodiadau a Chanllawiau

RHESTR O DERMAU A MEINI PRAWF

Mentor – Mae'r mentor yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad o waith cymdeithasol ar ôl ymgymhwyso (yn ddelfrydol, y rheolwr llinell neu ymarferydd profiadol addas arall o'r un tîm neu'r un maes gwaith â hwy). Ei rôl yw cynnig cymorth a chyfarwyddyd i'r dysgwr, pan fydd angen, wrth iddo gasglu tystiolaeth i gwblhau'r portffolio. Nid oes disgwyl i fentoriaid ragweld na rhagfynegi pa gyfarwyddwyd neu gefnogaeth fydd ei hangen, felly rhaid i'r dysgwr sicrhau ei fod yn glir ynglŷn â hyn gyda'i fentor. Ni ddisgwylir i fentoriaid fod yn arbenigwr ym mhob maes sydd wedi'i gynnwys yn y portffolio, ond dylai annog dysgwyr i ddefnyddio ymchwil, hyfforddiant a dysgu yn eu hymarfer ac i gasglu tystiolaeth ar gyfer y portffolio.

Arsylwr – Mae'r portffolio yn cynnwys gofyniad yn adran 3 i arsylwi ymarfer. Bydd yr Arsylwr yn mynd gyda'r dysgwr i ymweld ag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rhaid i'r Arsylwr fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ar ôl ymgymhwyso ac, os yw'n bosibl, ef fydd y mentor neu'r rheolwr llinell. Os nad yw hyn yn bosibl, gall unigolyn arall gyflawni'r rôl ar yr amod ei fod yn bodloni'r un meini prawf. Rhaid defnyddio'r profforma yn adran 3 o'r portffolio i gofnodi'r arsylwi er gellir defnyddio fersiwn wahanol os pennir bod hynny'n fwy priodol i gasglu adborth mwy manwl, o ystyried oedran, gallu ac anghenion yr unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Dylai unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr dderbyn eglurhad o'r broses a rhoi caniatâd, a dylid eu hysbysu o flaen llaw y bydd Arsylwr yn bresennol. Cyfrifoldeb y dysgwr fydd trefnu hyn ymlaen llaw. Ni fydd disgwyl i'r Arsylwr gymryd rhan yn y cyfarfod. Yr unig ddisgwyliad yw y bydd yn llofnodi'r profforma arsylwi i gadarnhau bod sylwadau ysgrifenedig y dysgwr am yr arsylwi'n gofnod cywir o'r hyn a ddigwyddodd. Yn union ar ôl yr arsylwi, bydd angen i'r Arsylwr gael trafodaeth fer â'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr **heb i'r dysgwr fod yn bresennol**, gan ddefnyddio'r profforma yn adran 3 o'r portffolio neu'r dull gwahanol fel bo'r angen. Pan fydd y dysgwr wedi ymadael, rhaid i'r Arsylwr egluro i'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr y bydd eu sylwadau'n cael eu rhannu â'r dysgwr cyn gofyn y cwestiynau ar y profforma. Gellir defnyddio'r cwestiynau yn adran 3 o'r portffolio yn fframwaith ar gyfer y drafodaeth â'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gall yr Arsylwr newid neu aralleirio'r cwestiynau fel y mae'n gweld yn briodol a chofnodi'r ymatebion wedyn yn adran 3. Os yw'r unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn blentyn neu'n berson gydag anghenion dysgu ychwanegol, bydd y dysgwr a'r arsylwr yn cael trafodaeth cyn yr arsylwad er mwyn ystyried ffyrdd priodol o gasglu'r adborth, e.e. yn aml, bydd plant yn siarad yn well wrth wneud gweithgaredd megis gwneud llun ac ati.

Aseswr – Yr Aseswr yw'r unigolyn a fydd yn marcio'r portffolio a gyflwynir. Mae hyn yn golygu na fydd yn dod i gysylltiad â'r dysgwr ac, os yw'n bosibl, bydd yn gweithio mewn Awdurdod Lleol gwahanol. Bydd y portffolio'n cael ei anfon at yr aseswr drwy law'r tîm hyfforddiant/datblygu gweithlu.

Rhaid i'r aseswr fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad mewn gwaith cymdeithasol ar ôl ymgymhwyso a bydd yn unigolyn sydd un ai'n hyrwyddo dysgu a datblygiad staff proffesiynol eraill neu'n dal cymhwyster priodol ym maes asesu.

Moodle - Tudalennau gwe'r Brifysgol sy'n darparu amgylchedd dysgu rhithwir i ddysgwyr gyda gwybodaeth am y rhaglen, deunyddiau dysgu, e-lyfrau a gwybodaeth am reolau a gweithdrefnau'r Brifysgol.

Canllawiau ar y Portffolio

Cyfrinachedd

Mae'n bwysig na fydd modd adnabod unrhyw unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail y wybodaeth sydd yn y portffolio. Fodd bynnag, rhaid i chi wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfrinachedd yn Llawlyfr y Rhaglen;
- peidio ag enwi'ch Awdurdod Lleol na chyfeirio at unrhyw nodwedd ddaearyddol neu ffisegol neu nodwedd o fath arall a fydd yn rhoi modd i'w adnabod. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau yn y llyfryddiaeth at bolisiâu, e.e. defnyddiwch y ffurf 'polisi awdurdod xxx';
- peidio ag enwi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalmwyr. Yn hytrach, rhaid defnyddio rhifau, e.e. 1, 2, 3 etc. ac nid llythrennau;
- peidio ag ysgrifennu gwybodaeth sy'n rhoi modd i adnabod unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalmwyr yn anuniongyrchol drwy'r disgrifiad yr ydych yn ei roi. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau at enwau, cydweithwyr, lleoedd (gan gynnwys ysbytai, ysgolion, trefi, pentrefi, strydoedd), digwyddiadau penodol a oedd wedi denu sylw ac y gellid eu hadnabod oherwydd cyhoeddusrwydd blaenorol, gweithwyr proffesiynol eraill neu unrhyw wybodaeth bersonol arall gan gynnwys cyflyrau meddygol a chyflyrau eraill;
- bod yn bersonol gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau ar gyfrinachedd. Er y bydd canllawiau ac adborth ar gyfrinachedd yn cael eu rhoi mewn gweithdai cyfnerthu ac yn adborth ffurfiol yr aseswr, cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau bod cynnwys y portffolio'n gyson â'r gofynion am gyfrinachedd sydd wedi'u nodi uchod ac yn y llawlyfr.

SYLWER

Cofiwch mai CHI sy'n gyfrifol am y Portffolio. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar neb arall yr ydych yn gofyn am arweiniad neu gymorth ganddynt wrth ddatblygu'ch portffolio i sylwi ar unrhyw beth sy'n torri'r rheolau ar gyfrinachedd. Eich gwaith chi yw hwn a rhaid i chi dderbyn cyfrifoldeb llwyr dros gyfrinachedd. Mae'n bwysig iawn cwrdd â'r holl ofynion o ran cyfrinachedd. Gellir rhoi cosb am dorri rheolau ar gyfrinachedd drwy dynnu marciau neu ddyfarnu marc methu, gweler y llawlyfr am fanylion.

Iaith y Portffolio

Gellir cyflwyno portffolios yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n gyfuniad o'r ddwy iaith. Bydd pob darn o waith ysgrifenedig a gyflwynir lle y mae rhannau neu'r cyfan ohono

yn Gymraeg yn cael ei asesu gan siaradwr Cymraeg ac ni fydd unrhyw waith yn cael ei gyfieithu.

Adran 2 – Adolygu Datblygiad

Rhaid llenwi'r adran hon cyn dechrau adeiladu'r portffolio. Bydd angen i ddysgwyr weithio gyda'u mentoriaid i ganfod meysydd lle y mae angen nodi profiadau a dysgu perthnasol i sicrhau eu bod yn gallu cwblhau'r portffolio. Dylid cwblhau'r adran hon drwy ystyried y gwaith mae'r dysgwr wedi'i wneud ers cymhwyso, a'r trafodaethau gyda mentor y dysgwr a goruchwyliwr/rheolwr llinell fel rhan o unrhyw gynllun datblygu unigol sydd eisoes yn ei le gan y dysgwr, neu y cytunir arno gyda'i reolwr.

Wrth ystyried anghenion hyfforddi, bydd disgwyl i ddysgwyr fod wedi dilyn hyfforddiant ar lefel briodol ar ddiogelu oedolion a phlant, yn ôl eu lleoliad gwaith, ac i fod wedi cymryd rhan mewn digwyddiad hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer y maes arall, h.y. bydd disgwyl i ddysgwr sy'n gweithio gyda phlant fod wedi dilyn hyfforddiant llawn ar ddiogelu yn y maes hwnnw, a digwyddiad hyfforddiant ymwybyddiaeth ar ddiogelu oedolion – ac fel arall yn achos y rheini sy'n gweithio gydag oedolion. Hefyd, bydd disgwyl i bob dysgwr fod wedi dilyn hyfforddiant addas ar asesu.

Yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant a drefnir gan gyflogwyr, rhaid i ddysgwyr wneud y canlynol:

- bod yn bresennol mewn 5 diwrnod cyswllt gorfodol (sesiwn gynefino a phedwar gweithdy cyfnerthu a gynhelir yn rhanbarthol ar 4 diwrnod ar wahân)
- ymgymryd â gwaith darllen ac ymchwil personol ynghylch yr achosion y maent yn ymwneud â nhw yn eu gwaith, gyda chymorth ac arweiniad gan fentor profiadol sef eu rheolwr llinell, os yw'n bosibl, neu rywun sy'n eu goruchwylio.
- cysylltu â'u timau hyfforddi/datblygu gweithlu lleol am unrhyw arweiniad neu gefnogaeth ychwanegol fyddant ei angen.
- cymryd rhan mewn proses werthuso ar ddiwedd y rhaglen sy'n cynnwys cwblhau a dychwelyd ffurflenni arolwg, a/neu fynychu grwpiau ffocws.

Gweithdai cadarnhau: bydd y gweithdai cadarnhau yn cael eu cynnal yn rhanbarthol i helpu dysgwyr gwblhau eu portffolios a darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gynnydd yn ogystal â pheth adborth ffurfiannol am eu portffolios. **Mae presenoldeb yn y gweithdai hyn yn orfodol.** Bydd gwybodaeth ar gael am y gweithdai drwy'r unedau hyfforddi/datblygu gweithlu lleol ac ar Moodle.

Adran 3 - Arsylwi

Rhaid arsylwi ar waith uniongyrchol gydag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofawyr. Ni chaniateir arsylwi ar gyflwyno tystiolaeth mewn llys, cyfarfodydd o grwpiau strategaeth, cynadleddau achos na thribiwnlysoedd nac unrhyw weithgarwch anuniongyrchol arall. Rhaid i'r dysgwr ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan yr unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofawyr ar gyfer yr arsylwi.

Meini prawf ar gyfer yr Arsylwr: Rhaid i'r arsylwr fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ar ôl ymgymhwyso ac, os yw'n bosibl, ef fydd y mentor/rheolwr llinell.

Rhaid i'r arsylwi bara o leiaf 30 munud.

Rhaid i'r dysgwr ddefnyddio'r profforma yn adran 3 i gofnodi'r arsylwi er gellir defnyddio ffurf wahanol os yw'r dysgwr yn teimlo y gellir casglu adborth mwy manwl yn dibynnu ar oedran, gallu ac anghenion yr unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Canllawiau i'r Arsylwr: Dylai'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr fod wedi'u hysbysu y byddwch yn bresennol gyda'r dysgwr. Ni ddisgwylir i chi gymryd rhan yn y cyfarfod. Disgwylir i chi lofnodi i gadarnhau bod sylwadau ysgrifenedig y dysgwr am yr arsylwi yn gofnod cywir o'r hyn a ddigwyddodd.

Ar ôl y cyfarfod rhwng y dysgwr a'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, bydd angen i chi ofyn am gael cyfarfod byr â'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr heb i'r dysgwr fod yn bresennol. Rhaid i'r arsylwr egluro i'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr y bydd eu sylwadau'n cael eu rhannu â'r dysgwr ac yn cael eu defnyddio ar gyfer eu datblygiad proffesiynol. Dylid dweud wrthynt hefyd y bydd copi o'u hadborth dienw yn cael ei gynnwys ym mhorthffolio'r dysgwr. Ni ddylai'r dysgwr fod yn bresennol wrth gwblhau'r adborth. Mae cyfres o gwestiynau yn adran 3 y gellir ei defnyddio fel fframwaith i'ch trafodaeth â'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Cewch newid neu aralleirio'r cwestiynau fel bo'n briodol yn eich barn chi, a chofnodi'r ymatebion yn adran 3. Gallwch hefyd ddefnyddio dull gwahanol yn dibynnu ar oedran a gallu ac anghenion iaith yr unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Adran 4

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynnu bod y dysgwr yn cynnal asesiad gydag eraill (sy'n golygu gweithwyr proffesiynol eraill, sef gweithiwr cymdeithasol neu eraill sy'n ymwneud ag asesu ar gyfer diogelu) sy'n ymwneud â diogelu naill ai oedolyn neu blentyn.

Rhaid i'r astudiaeth achos yn adran 4 fod yn gysylltiedig â'ch maes gwaith eich hun h.y. os ydych yn gweithio ym maes diogelu Plant, yna ysgrifennwch am hynny, neu fel arall os ydych yn gweithio ym maes diogelu oedolion. Nodwch y bydd yr adran hon yn ymdrin ag ystod eang o ddeilliannau dysgu a chynghorir y dysgwr i fod yn glir ynglŷn â beth sydd angen rhoi tystiolaeth ohoni yn yr astudiaeth achos hon. Mae Atodiad 7 yn nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen o ddeilliannau dysgu ym mhob adran o'r portffolio.

Adran 5

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynnu bod yn rhaid i ddysgwr feddu ar ddealltwriaeth o ddiogelu oedolion a diogelu plant. Felly, yn adran 5 rhaid i ddysgwyr

ddangos bod ganddynt wybodaeth am y ddau fath a dealltwriaeth ohonynt. Felly, os yw'r dysgwr wedi ysgrifennu am ddiogelu oedolion yn adran 4 y Portffolio, rhaid iddo ysgrifennu am ddiogelu plant yn rhan 2, adran 5 ac fel arall. Nid oes rhaid seilio rhan 2 ar waith gwirioneddol - dim ond dangos dealltwriaeth a gwybodaeth. Noder eto bod yr adran hon yn ymdrin ag ystod eang o ddeilliannau dysgu. Mae Atodiad 7 yn nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen o ddeilliannau dysgu ym mhob adran o'r portffolio.

Adran 6

Dylid llenwi'r adran hon ar ôl cwblhau pob adran arall yn y portffolio. Pwrpas yr adran hon yw:

- galluogi'r dysgwyr i fyfyrion feirniadol ar eu datblygiad yn ystod y broses o adeiladu'r portffolio
- gwerthuso deilliannau'n feirniadol yn erbyn y cynllun gwreiddiol yn Adran 2
- ystyried adborth a gasglwyd yn ystod elfen arsylwi'r portffolio, ac adlewyrchu sut allai hyn fod wedi effeithio ar eu hymarfer.
- cwblhau cynllun datblygu ar gyfer y dyfodol y dylent ei rannu gyda'i rheolwr llinell
- cofnodi'r dyddiadau pan wnaethant fynychu'r gweithdai gorfodol

Gofynnir hefyd i fentoriaid gyfrannu sylwadau yn yr adran hon, gan adlewyrchu sut allai'r anghenion datblygu a nodwyd yn adran 2 fod wedi newid dros gyfnod y rhaglen, a safbwynt presennol.

Adran 7

Llyfryddiaeth

Adran 8

Manylion y dysgwr, llofnodion a gwiriad y rheolwr llinell.

Canllawiau ar gyfer llofnod gwirio'r rheolwr llinell

Fel arfer, rhaid i'r rheolwr llinell neu'r uwch ymarferydd fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sy'n:

- gyfarwydd â gwaith diogelu
- gallu cadarnhau bod y dysgwr wedi bod yn gysylltiedig â'r achos y rhoddwyd dystiolaeth ohono yn adran 4 y portffolio
- gallu gwirio bod y dysgwr wedi bodloni'r holl feini prawf a restrir

Adran 9

Cytundeb dysgu'r dysgwr a'r cyflogwr. Ar ôl llenwi'r cytundeb dysgu, dylid ei gynnwys yn yr adran hon a'i gyflwyno ar ffurf copi caled i'r uned hyfforddi.

POLISI PRESENOLDEB Y BRIFYSGOL

Mae presenoldeb yn arwydd pwysig o'ch ymgysylltiad a'ch llwyddiant yn eich astudiaethau. Felly, mae gofyn i bob myfyriwr fynd i'r holl ddosbarthiadau a'r tiwtorialau a amserlennwyd a bydd Athrofeydd yn cofnodi presenoldeb academiaidd unigol. Mae'n bwysig eich bod:

- yn ymgyfarwyddo â'r polisi presenoldeb sy'n berthnasol i chi (gweler <https://www.uwtsd.ac.uk/academic-office/other-forms-and-policies/>);
- yn hollol ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd absenoldebau annisgwyl.
 - yn ymwybodol y cymerir camau disgyblu am unrhyw gyfnodau estynedig o absenoldeb heb ganiatâd.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i **fyfyrwyr rhyngwladol sydd â Fisa Haen 4 UKVI**. Byddai methu â glynu wrth ofynion ac amodau'r Polisi Presenoldeb yn arwain atoch yn tynnu'n ôl o'r rhaglen a bydd y Brifysgol hefyd yn rhoi gwybod i UKVI a fydd yn diddymu eich nawdd Haen 4.

Apelio yn erbyn tynnu'n ôl oherwydd presenoldeb gwael – Mae gwybodaeth am sut i apelio yn erbyn tynnu'n ôl oherwydd presenoldeb gwael ar gael ar wefan y Brifysgol

(<http://www.uwtsd.ac.uk/academic-office/procedures-for-academic-appeals-complaints-and-other-student-cases/>).

CODAU YMDDYGIAD

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu i bob myfyriwr amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol lle caiff yr holl fyfyrwyr y posibilrwydd o lwyddo hyd eithaf eu gallu.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob myfyriwr lynu wrth God Ymddygiad Myfyrwyr (gweler <https://www.uwtsd.ac.uk/studentcharter/>).

Mae gan y Brifysgol hefyd Bolisiâu Addasrwydd i Astudio ac Addasrwydd i Ymarfer (gweler <https://uowtsd.sharepoint.com/student-info/SitePages/Regulations.aspx>).

Yn ogystal, mae gan lawer o raglenni god ymarfer proffesiynol y disgwylir i chi lynu wrtho. Bydd eich Cyfarwyddwr Rhaglen yn rhoi'r manylion priodol i chi.

YNGLŶN Â CHAMYMDDWYN ACADEMAIDD A LLÊN-LADRAD

Yn ôl diffiniad y Brifysgol, arfer annheg yw unrhyw weithred, boed yn fwriadol neu fel arall, llew caiff persopn ennill i'w hun neu i rywun arall, fantais heb ganiatâd. Mae cyflawni arfer annheg mewn asesiad yn un o'r troseddau mwyaf difrifol mewn bywyd academiaidd, a gall ei ganlyniadau fod yn ddifrifol. Mae'n tanseilio integredd ysgolheictod, ymchwil a'r broses arholi ac asesu.

Mae'n bwysig iawn deall nad yw'n amddiffyniad dweud i arfer annheg ddigwydd yn anfwriadol, yn ddamweiniol, oherwydd amgylchiadau esgusodol neu nam hirdymor (ni waeth a yw'r Brifysgol wedi cydnabod yr amgylchiadau hyn neu'r nam hirdymor ai peidio).

Un math o gamymddwyn academiaidd yw llên-ladrad. Llên-ladrad yw esgus, neu geisio esgus, mai eich gwaith chi yw gwaith a wnaed gan rywun arall. Mae'n cynnwys copïo geiriau, syniadau, delweddau neu ganlyniadau ymchwil rhywun arall **heb gydnabyddiaeth**, pa un ai a yw'r geiriau hyn ac ati yn rhai cyhoeddedig neu anghyhoeddedig. Llên-ladrad, er enghraifft, yw copïo gwaith myfyriwr arall, neu aelod o'r staff neu erthygl gyhoeddedig heb gydnabod yr awdur. Mae personau sy'n gadael i eraill ddwyn eu gwaith hefyd yn euog.

Sylwer: ystyrir bod ailgyflwyno gwaith sydd wedi ei gyflwyno eisoes ar gyfer tasg asesu wahanol heb nodi hyn hefyd yn llên-ladrad (a'r enw arno yw hunan-lên-ladrad) a chaiff ei drin yn y modd hwn.

Llên-ladrad yw un o'r troseddau gwaethaf yn y bywyd academiaidd, a gall ei ganlyniadau fod yn ddifrifol. Mae'n tanseilio integredd ysgolheictod, ymchwil a'r broses arholi ac asesu. Yr arweiniad sy'n dilyn sy'n esbonio'r hyn a olygir gan lôn-ladrad, yn disgrifio rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer ymdrin ag e, ac yn darparu help i'w osgoi.

Wrth gofrestru'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, rydych wedi cydsynio y bydd craffu electronig a phersonol ar eich gwaith ar gyfer achosion o lôn-ladrad. Fel arfer, caiff eich gwaith ei gyflwyno ar ffurf electronig trwy Moodle.

Ar gyfer cyflwyniadau y tu allan i blatfform Moodle, mae hefyd yn bwysig eich bod yn cyfeirnodu eich ffynonellau'n gywir. Mewn rhai achosion, bydd disgwyl i chi gyflwyno copïau called ac electronig y gellir eu gwirio yn ôl cronfa ddata Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad Addysg Uwch y DU. Yn achos cyflwyniadau llawysgrif, portffolio a llawlyfr proses, holwch eich tiwtor modwl os oes gennych unrhyw amheuaeth a ydych wedi torri'r rheoliadau. Maent yma i'ch cynorthwyo; sicrhewch eich bod yn manteisio ar eu harbenigedd.

LLÊN-LADRAD: RHEOLIADAU, GWEITHDREFN A CHOSBAU

Ceir manylion llawn am weithdrefnau a chosbau'r Brifysgol ar gyfer delio ag achosion o lôn-ladrad ym Mhennod 13 y *Llawlyfr Ansawdd Academiaidd*, a'r *Polisi Camymddwyn Academiaidd* cysylltiedig sydd i'w weld ar wefan y Brifysgol neu sydd ar gael o Swyddfeydd yr Athrofeydd.

Osgoi Llên-ladrad

Eich gwaith gwreiddiol chi eich hun yw gwaith cwrs, traethodau hir neu waith creadigol i fod. Nid yn unig y mae hyn yn anochel, mae i'w ddisgwyl. Mae pob ysgolheictod yn adeiladu ar waith eraill. Y peth pwysig i'w gofio yw bod rhaid **cydnabod eich ffynonellau** bob amser. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pedair arddull gyfeirnod: APA, Harvard, IEEE a MHRA ac yn darparu llawlyfr ar gyfer pob un o'r arddulliau hyn. Ar gyfer eich rhaglen astudio, dylech ddefnyddio Cyfeirnod Harvard. Gellir dod o hyd i'r llawlyfrau ar-lein: <https://www.uwtsd.ac.uk/library/infoskills/referencing-handbooks/> neu mewn print o'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu. Darperir sesiwn ar Hanfodion Cyfeirnod yn ystod tymor cyntaf eich blwyddyn gyntaf ond dyma'r rheolau cyffredinol:

- *Rhaid i unrhyw beth sydd wedi ei gopïo neu ei ddyfynnu o ffynhonnell arall, gan gynnwys ffynonellau electronig megis y rhynggrwyd, fod mewn dyfynodau a'i briodoli i'r awdur gwreiddiol. Gall hyn fod yng nghorff y testun neu ar ffurf troednodyn, yn dibynnu ar yr arddull gyfeirnod i y gofynnir i chi ei defnyddio.*
- *Mae aralleirio a chrynhof gwaith eraill yn cynnwys rhoi eu syniadau nhw yn eich geiriau chi. Mae hyn yn iawn, ond unwaith eto, cydnabyddwch eich ffynhonnell..*
- *Pan fyddwch yn ddyledus at ei gilydd am eich syniadau i un neu ddwy brif ffynhonnell, gall hyn fod yn ychydig yn fwy cymhleth. Os yw'r syniadau neu'r ffordd y maent yn cael eu cyflwyno yn dod o un neu ddwy ffynhonnell, gwnewch hyn yn glir. Gwnewch yr un peth os ydynt yn dod o ddarlithoedd. Mae'n bwysig peidio â honni gwreiddioldeb lle nad yw'n bodoli ond i nodi'n gyffredinol o ble mae'r wybodaeth yn dod.*
- *Wrth reswm, nid oes disgwyl dyfyniadau llawn mewn arholiadau dibaratoad sydd wedi eu hamseru, ond dylech nodi dyled gyffredinol a chydnabod unrhyw ddyfyniadau yr ydych wedi llwyddo i'w cofio.*

Y rheol aur yw; '**Os oes amheuaeth, rhowch gyfeiriadau**' a bydd eich Llawlyfr Cyfeirnod yn rhoi arweiniad penodol i'ch helpu i wneud hyn yn gywir. I gael cefnogaeth, cysylltwch â'ch tiwtor neu eich Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd. Does dim cosb am ofyn am gyngor ac arweiniad; mae cosbau llym am lôn-ladrad ac os na chyfeirnodwch eich gwaith, gallai hyn olygu ystyried bod eich gwaith wedi ei lôn-ladrata.

Mathau eraill o Gamymddwyn Academaidd

Ceir mathau eraill o gamymddwyn academaidd, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain: creu gwaith mewn grŵp pan mai tasg unigol ydyw (gelwir hyn yn gyd-dwylo), ffugio data neu wneud honiadau ffug eich bod wedi gwneud ymchwil, defnyddio gwasanaeth banc traethodau, bod â ffynhonnell wybodaeth heb hawl mewn

arholiad, cyfathrebu gwaharddedig yn ystod arholiad. Mae'r un rheoliadau, gweithdrefnau a chosbau yn berthnasol i bob math o gamymddwyn academiaidd.

LLYFRGELL AC ADNODDAU DYSGU

Mae'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu (LIAD) yn cefnogi gweithgareddau dysgu, addysgu ac ymchwil staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol gyda llyfrgelloedd yng Nghaerfyrddin, Llambled, Llundain ac Abertawe ac mae'n cynnwys adnoddau ar-lein, lleoedd dysgu cymdeithasol, casgliadau arbennig ac archifau.

Mae'r llyfrgell yn blaenoriaethu prynu e-lyfrau yn hytrach na chopïau print ble bynnag y bo modd ac adolygir cyfnodau benthyca'n rheolaidd gan y llyfrgell i sicrhau eu bod yn briodol a'u bod yn darparu mynediad teg i adnoddau. Disgwylir y bydd o leiaf o leiaf yr holl eitemau ar y rhestr ddarllen hanfodol ar gael o'r llyfrgell. Mae LIAD yn dilyn polisi Dirwyon Tecach sy'n golygu na chaiff myfyrwyr ddirwyon ar eitemau ond os oes galw mawr amdanynt neu os bydd defnyddiwr llyfrgell arall yn gofyn amdanynt..

Darpara LIAD wasanaeth *Need More?* sy'n anelu at ddarparu un man cyswllt ar gyfer yr holl anghenion adnoddau dysgu, er enghraifft, os bydd angen llyfr, cylchgrawn neu draethawd ymchwil nad yw yn stoc y llyfrgell, gellid ei brynu neu ei fenthyca gan lyfrgell arall. I gael rhagor o wybodaeth, ewch yma: <http://www.uwtsd.ac.uk/library/library-guide/need-more/>.

Lleoedd Dysgu

Mae chwe llyfrgell ar draws campysau Caerfyrddin, Llambled, Llundain ac Abertawe. Yn ogystal â chasgliadau, mae'r llyfrgell yn darparu amrywiaeth o leoedd modern a hyblyg, sy'n adlewyrchu gwahanol arddulliau dysgu, e.e. lleoedd astudio grŵp a mannau tawel, yn ogystal â chyfleusterau TG, rhyngwrwyd diwifr, cyfleusterau llungopïo a gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog.

Llyfrgell Ar-lein

Cynigia LIAD amrywiaeth eang o adnoddau print ac electronig gan gynnwys casgliad helaeth o e-gylchgronau ac e-lyfrau sydd ar gael 24/7 ac sy'n darparu mynediad i gylchgronau ysgolheigaidd, papurau newydd, adroddiadau cwmnïau a deunydd cyfeiriol. Chwilia catalog y llyfrgell am holl amrywiaeth deunyddiau print ac ar-lein y llyfrgell ac yn eich galluogi i fanteisio ar eich cyfrif llyfrgell o unrhyw le.

Sgiliau Gwybodaeth

Caiff yr holl fyfyrwyr daith o gwmpas y llyfrgell, sesiwn Sgiliau Sylfaenol a sesiwn Hanfodion Cyfeirnod yn yr ychydig wythnosau cyntaf yn y Brifysgol. Bydd Llyfrgellwyr Cyswllt Academiaidd yn helpu'r myfyrwyr i ddatblygu ffynonellau gwybodaeth yn eu meysydd pwnc. Cynigir sesiynau niferus gydol y flwyddyn i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau gwybodaeth ymhellach i gefnogi eu llwyddiant academiaidd a'u cyflogadwyedd. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau ar ganfod newyddion ffug, defnyddio ystadegau, ymwybyddiaeth fasnachol, rheoli'r wybodaeth amdanynt sydd ar gael ar-lein a defnyddio ffynonellau gwybodaeth mewn fformatau dealladwy. Gweithreda LIAD bolisi drws agored sy'n galluogi myfyrwyr i ofyn am help a chyngor ar yr adnoddau

gwybodaeth sydd ar gael gydol y flwyddyn academiaidd, Caiff Llyfrgellwyr Cyswllt Academiaidd fynd i Bwyllgorau Staff / Myfyrwyr, ac maent hefyd yn mynd i gyfarfodydd perthnasol yr Athrofa pan gânt wahoddiad, gan gynnwys Bwrdd yr Athrofa. I gael rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth Sgiliau Gwybodaeth, ewch i: [<https://www.uwtsd.ac.uk/library/infoskills/>](https://www.uwtsd.ac.uk/library/infoskills/)

Casgliadau Arbennig ac Archifau

Y Llyfrgell hefyd yw cartref Casgliadau Arbennig Y Drindod Dewi Sant, gan gynnwys llyfrau argraffedig hynaf y Brifysgol, llawysgrifau ac archifau. Mae'r Casgliadau Arbennig yn cynnwys dros 35,000 o weithiau argraffedig, 8 llawysgrif ganoloesol, tua 100 o lawysgrifau ar ôl yr Oesoedd Canol, a 69 incwnabwlwm. Mae deunydd o'r Archifau yn cynnwys archif sefydliadol Coleg Dewi Sant, wedyn Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, a Choleg y Drindod Caerfyrddin, y naill a'r llall yn aelodau sefydlo Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Anogir y myfyrwyr i ddefnyddio'r adnoddau rhyfeddol hyn yn rhan o'u hastudiaethau, ni waeth beth fo eu disgyblaeth. Yn aml trefnir ymweliadau a gweithdai yn yr ystafelloedd darllen pwrpasol yn llyfrgell campws Llambod ac mae rhaglen reolaidd o arddangosfeydd ar draws y campysau ac ar-lein.

I wybod am ddatblygiadau diweddar y gwasanaeth, diweddariadau a gwybodaeth gyswllt, ewch i wefan Llyfrgell y Brifysgol yn: <http://www.uwtsd.ac.uk/library/>. Dilynwch hefyd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu ar Facebook, Instagram neu Twitter i gael y newyddion diweddaraf, datblygiadau yn y gwasanaeth a gwybodaeth am wasanaethau ac adnoddau newyddion newydd : @UWTSDLib

GWASANAETHAU MYFYRWYR

Gwasanaeth cymorth proffesiynol sy'n darparu gwybodaeth , cyngor, arweiniad, cymorth ymarferol ac emosiynol o ansawdd uchel i alluogi'r holl fyfyrwyr i wireddu eu potensial llawn. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys y Gwasanaeth Gyrfaoedd, Cymorth Ariannol, Cymorth Dysgu, Gwasanaeth Cynghori a chymorth i fyfyrwyr sy'n dod o gefndir gofal. I gael rhagor o fanylion gweler [<http://www.uwtsd.ac.uk/student-services/>](http://www.uwtsd.ac.uk/student-services/)

SGILIAU ASTUDIO

Mae gan yr holl fyfyrwyr fynediad i sgiliau astudio i'w cynorthwyo gyda'u hastudiaethau. Mae manylion y ddarpariaeth ar gael gan swyddfeydd Gwasanaethau Myfyrwyr ar bob campws ac yn <http://www.uwtsd.ac.uk/study-skills/>.

Mae'r pynciau dan sylw yn cynnwys:

Datblygu strategaethau astudio effeithiol
Cynllunio ac ysgrifennu aseiniadau
Paratoi cyflwyniadau
Cynllunio ar gyfer seminarau
Paratoi ar gyfer arholiadau

Mae sesiynau fesul un ar gael ar gampysau Caerfyrddin ac Abertawe – mae angen apwyntiadau. Mae modd hefyd i fyfyrwyr dysgu o bell hefyd fanteisio ar y gwasanaeth Sgiliau Astudio o Bell trwy ddefnyddio'r e-bost, y ffôn neu Skype. Gweler tudalennau gwefan sgiliau astudio Gwasanaethau Myfyrwyr i gael rhagor o fanylion: <http://www.uwtsd.ac.uk/study-skills/>.

CWYNION

Mae gennych yr hawl i wneud cwyn am unrhyw bryder penodol am ddarpariaeth eich Rhaglen Astudio neu wasanaeth academiaidd cysylltiedig. Gellir gweld manylion llawn y broses gwyno o dan 'Gweithdrefn ar gyfer Cwynion Myfyrwyr' ym Mhennod 13 y *Llawlyfr Ansawdd Academiaidd* ac mewn dogfennau ategol ar adran y Swyddfa Academiaidd ar wefan y Brifysgol.

<http://www.uwtsd.ac.uk/academic-office/procedures-for-academic-appeals-complaints-and-other-student-cases/>

Atodiad 1:

Academi Cymru ar gyfer Arfer Proffesiynol ac Ymchwil Cymhwysol: Datganiad Moesegol Arfer Proffesiynol ar Ymchwil a dysgu seiliedig ar waith

Diffinnir 'ymchwil' yn unrhyw ffurf ar ymholiad disgybledig sy'n anelu at gyfrannu i gorff o wybodaeth neu theori.

Cyfeiria 'moeseg ymchwil' at egwyddorion moesol sy'n arwain yr ymchwil, o'i ddechreuad i gwblhau a chyhoeddi canlyniadau a'r tu hwnt – er enghraifft, hyd y data a'r samplau ffisegol ar ôl cyhoeddi'r ymchwil. (ESRC, *Research Ethics Framework* t.7 dim dyddiad)

Mae gofyn i'r holl staff a'r ymgeiswyr gydymffurfio â gofynion a chanllawiau Cod Ymarfer Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Mae hyn yn wir am bob gwaith ymchwil ar gyfer unrhyw brosiect, traethawd ymchwil neu aseiniad unigol sy'n cynnwys elfen o ymchwil, boed ar gyfer graddau israddedig neu ôl-raddedig, ar gyfer erthygl cylchgrawn neu gyhoeddiad arall. Bydd modd i'r Cydlynnydd Rhaglen neu'r Swyddog Moeseg Ymchwil roi cyngor i staff ac ymgeiswyr ar y canllawiau perthnasol. Os bydd angen, gofynnir i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg am gyngor.

Rhaid mynd i'r afael â'r egwyddorion sylfaenol hyn wrth gyflawni unrhyw weithgarwch ymchwil sy'n seiliedig ar waith:

- Cydymffurfio â phrotocol gan gynnwys Codau Ymarfer a Moeseg proffesiynol.*
- Gweithredu gydag uniondeb a thrin pobl yn deg wrth barchu annibyniaeth unigolion.
- Sicrhau dilysrwydd pob gwaith ymchwil trwy sicrhau gwaith digonol o ran adnabod, monitro, adolygu a chymeradwyo.
- Ymlyniad wrth brotocol cywir mewn achosion o ymchwil mewnol neu ymchwil ymarferwr lle mae'r ymchwilydd yn ymwneud neu'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r lleoliad ymchwil.

Rhaid i bob dysgwr ac aelod o'r staff gael caniatâd (i ddechrau, trwy ei Swyddog Moeseg Ymchwil/Cydlynnydd Rhaglen) ynghylch yr agweddau moesegol hyn, cyn cyflawni unrhyw waith ymchwil, pa un a yw hynny'n cynnwys casglu data personol neu wneud defnydd o ffynonellau eraill.

*** Ymchwil Seiliedig ar Waith**

Yn ogystal â glynu wrth God Ymarfer y Brifysgol ynghylch Moeseg Ymchwil, mae'n hanfodol bod yr ymchwil hefyd yn glynu wrth bob Cod Ymarfer Proffesiynol a Phrotocolau Moesegol yn y gweithle.

Atodiad 2:

DYFARNIADAU, TROSLWYDDO CREDYDAU A DILYNIANT

Trosglwyddo i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Efallai y bydd modd i ddysgwyr eraill sydd wedi dysgu mewn sefydliadau eraill hawlio dysgu drwy brofiad blaenorol a thrwy hynny cael eu heithrio o rannau o'r rhaglen. Bydd hyn yn gyfyngedig. Bydd gan ddysgu ar gyfer tystysgrif dariff credydau y gellir ei drosglwyddo i sefydliadau Addysg Uwch eraill.

Dilyniant

Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus yn cyflawni Tystysgrif Raddedig. Cyfnerthu mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol wedi ei gadarnhau gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Y credyd AU ar gyfer y dyfarniad hwn yw 60 credyd ar Lefel 6.

I ddysgwyr sydd am symud y tu hwnt i'r Dystysgrif Raddedig, mae'n bosibl astudio ar gyfer Tystysgrif Ôl-raddedig (60 credyd ar Lefel 7), Diploma Ôl-raddedig (120 credyd ar Lefel 7) neu MA mewn Arfer Proffesiynol yn rhan o'r Fframwaith Arfer Proffesiynol a ddilyswyd gan Goleg Prifysgol y Drindod (fel y'i gelwid ar y pryd) ym mis Rhagfyr 2008. Mae Achredu ar gyfer Dysgu drwy Brofiad Blaenorol (APEL) a Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol (APCL) ar gael yn rhan o Fframwaith Ymarfer Proffesiynol. *Dylai ddysgwyr nodi, fodd bynnag, nad oes un o'r dyfarniadau dilyniant a ddisgrifir uchod yn rhan o Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL). Gofal Cymdeithasol Cymru. Cyngorir ddysgwyr i ystyried eu dewisiadau datblygu yn y dyfodol yn ofalus er mwyn sicrhau cysondeb â llwybr gyrfa gweithwyr cymdeithasol.*

Mae'r tabl canlynol yn dangos y Datganiad Cyflawniad a'r dyfarniad llawn sydd ar gael. Dylid nodi bod cyfleoedd dilyniant yn bodoli y tu hwnt i'r Dystysgrif Ôl-raddedig i Ddiploma Ôl-raddedig a Gradd Meistr:

Lefel	Datganiad Cyflawniad/Dyfarniadau		Pwyntiau Dilyniant
7	Datganiad Cyflawniad (Trawsgrifiad Academaidd sy'n nodi'r modylau a maint y credydau)	lefel 7 <60 credyd	
7	Tystysgrif Ôl-raddedig	60 credyd	Uchafswm o 20 credyd ar lefel 6 a lleiafswm o 40 credyd ar lefel 7
7	Diploma Ôl-raddedig	120 credyd	Uchafswm o 30 credyd ar lefel 6 a lleiafswm o 90 credyd ar lefel 7
7	MA	180 credyd	Uchafswm o 30 credyd ar lefel 6 a lleiafswm o 150 credyd ar lefel 7

Atodiad 3:

Partneriaeth Porth Agored

Mae 'Porth Agored' yn bartneriaeth o 12 Awdurdod Lleol yng Ngogledd a Gorllewin Cymru, a'r aelodau yw'r Awdurdodau Lleol yn y tabl isod. Dangosir hefyd y cyswllt cyfredol ar gyfer pob Awdurdod.

Awdurdod	Enw Cyswllt	Ffôn	E-bost
Abertawe	Diane Cooper	01792 636111	Diane.Cooper@swansea.gov.uk
Ceredigion	Debbie Ayriss	01545 574005	Debbie.Ayriss@ceredigion.gov.uk
Powys	Claire Williams	01686 614043	claire.turner@powys.gov.uk
Gwynedd	Awen Williams	01286 679070	awenwilliams@gwynedd.gov.uk
Ynys Môn	Ann Postle	01248 752986	annpostle@ynysmon.gov.uk
Conwy	Nia O'Marah	01492 575011	nia.omarah@conwy.gov.uk
Sir Ddinbych	Kevin Jarvis	01824 706605	Kevin.Jarvis@denbighshire.gov.uk
Sir y Fflint	Carol Armstrong	01352 702661 07342 088532	carol_armstrong@flintshire.gov.uk
Wrecsam	Karen Hammond	01978 292984	karen.hammond@wrexham.gov.uk
Sir Gaerfyrddin	Emma Taylor-Hill	01267 246769	ETaylor-Hill@carmarthenshire.gov.uk
Sir Benfro	Annie Easton	01437 776086	anne-louise.easton@pembrokeshire.gov.uk
Castell-nedd Port Talbot	Chris Martin	01639 685279	c.martin@npt.gov.uk

Mae'r 12 Awdurdod Lleol yn gweithio mewn cydweiothrediad â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ddarparu cymhwyster i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso er mwyn cyflawni 60 credyd ar lefel 6. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fydd yn dyfarnu'r cymhwyster.

Atodiad 4:

Deilliannau Dysgu, Meini Prawf Asesu Rhaglen Gyfnerthu Gofal Cymdeithasol Cymru. Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

Mae i'r Rhaglen Gyfnerthu 3 uned a phob un yn cynnwys deilliannau dysgu a meini prawf asesu.

Teitl	Gweithio'n Gydweithredol gyda Defnyddwyr Gwasanaethau, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill
Deilliannau dysgu	Meini prawf asesu mae'r dysgwr yn gallu:
Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr	1.1 Arddangos defnydd o ddulliau cyfathrebu llafar a rhai nad ydynt yn rhai llafar i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. 1.2 Ceisio cymorth lle mae'r dewis ddull cyfathrebu y tu allan i allu'r gweithiwr. 1.3 Arddangos sgiliau cyfathrebu sy'n cymryd i ystyriaeth ddewis iaith a diwylliant. 1.4 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i gadarnhau bod safbwyntiau defnyddwyr gofal a gofalwyr wedi eu deall. 1.5 Adlewyrchu dymuniadau a theimladau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn cofnodion, gohebiaeth a chynlluniau. 1.6 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i helpu i reoli sefyllfaoedd lle mae gwewyr, gelyniaeth neu wrthwynebiad
Bod yn gallu gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill	2.1 Esbonio rolau, cyfrifoldebau atebolrwydd proffesiynol gweithwyr proffesiynol eraill. 2.2 Cyfathrebu mewn modd sy'n parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, trefniadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol. 2.3 Dangos sut i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr oddi mewn i'w sefydliad ei hun a gyda gweithwyr proffesiynol eraill 2.4 Defnyddio'r protocolau sy'n penderfynu'r wybodaeth a rennir yn eich sefydliad eich hun rhwng asiantaethau oddi mewn i gyd-destun gwaith amlasiantaethol
Adfyfrio'n feirniadol ar eich gwaith	3.1 Adfyfrio'n feirniadol ar eich perfformiad eich hun o ran gweithio'n gydweithredol, gan nodi meysydd arfer da, a'r rhai sydd i'w

cydweithredol eich hun	datblygu yn ystod gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill
	Dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau
Deilliannau Dysgu	Meini prawf asesu, mae'r dysgwr yn gallu:
Deall sut mae fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chyfarwyddyd yn cael eu defnyddio i lywio ymarfer asesu	1.1 Nodi'r fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol. safonau ac arweiniad sy'n sail i arfer asesu mewn gwaith cymdeithasol. 1.2 Gwerthuso'r berthynas rhwng arfer asesu a: • Fframweithiau deddfwriaethol • Safbwyntiau damcaniaethol • Safonau • Arweiniad a phrotocolau 1.3 Dadansoddi sut mae'r dulliau sy'n canolbwyntio ar y person yn dylanwadu ar arfer a phrosesau asesu. 1.4 Dadansoddi sut mae asesu sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau'n cyd-fynd ag arfer a phrotocolau asesu
Yn gallu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i gyflawni amrywiaeth o asesiadau	2.1 Gweithio'n gyfannol gyda phobl i'w galluogi i nodi, egluro a mynegi eu cryfderau, eu hanghenion a disgwyliadau. 2.2 Wrth gynnal gwaith asesu, arddangos integreiddiad gwerthoedd gwaith cymdeithasol a'r cod ymarfer i gynnwys sensitifrwydd diwylliannol a dewis iaith 2.3 Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni asesiad amlddisgyblaethol gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. 2.4 Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau wrth gynnal asesiad o • Anghenion defnyddiwr gwasanaeth • Anghenion gofalwr • Risg 2.5 Cefnogi pobl i gymryd rhan i ddarganfod ffyrdd creadigol o: Sicrhau newid Dod i atebion
Gallu cofnodi gwybodaeth asesiadau i	3.1 Esbonio sut y defnyddir gwybodaeth a gofnodir i gefnogi'r dadansoddi a'r gwaith o lunio penderfyniadau.

lywio'r penderfyniadau a wneir	3.2 Cynnal cofnodion ysgrifenedig ac electronig sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau cyfredol. 3.3 Dangos bod cofnodion asesu cywir, cadarn, cydlynol a dadansoddol wedi eu cwblhau. 3.4 Dadansoddi'r canlyniadau posibl lle nad yw'r cofnodi'n gywir, yn gadarn, yn gydlynol nac yn ddadansoddol.
Gwneud dyfarniadau proffesiynol sy'n seiliedig ar wybodaeth asesu	4.1 Dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth asesu i lywio barnau proffesiynol. 4.2 Arfer barnau proffesiynol am ddewisiadau, anghenion, risgiau a ffactorau amddiffynnol. 4.3 Esbonio sut y bydd ystyriaethau moesegol yn llunio ein barnau ein hunain. 4.4 Esbonio'r rhesymwaith ar gyfer eich barnau proffesiynol eich hun. 4.5 Cyfiawnhau eich barnau proffesiynol eich hun i gynnwys: Barn defnyddiwr gwasanaeth a/neu ofalwr Dull sy'n canolbwyntio ar y person Dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. 4.6 Addasu eich barn broffesiynol eich hun pan gyflwynir tystiolaeth newydd.
Yn gallu defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso'ch dadansoddiad eich hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol	5.1 Defnyddio adfyfrio beirniadol i werthuso arfer o ran dadansoddi mewn asesiadau mewn asesiadau gwaith cymdeithasol i gynnwys: • Rhoi llais y defnyddiwr gwasanaeth wrth galon defnyddiwr cymdeithasol • Y fframwaith deddfwriaethol, polisïau a gweithdrefnau mewn gwaith cymdeithasol • Gwybodaeth wedi ei chyd-destunol i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn maes gwaith • Sgiliau eraill a ddefnyddir wrth asesu • Arfer seiliedig ar werthoedd • Arfer moesegol. • Defnydd Goruchwyliaeth • Asesiad risg • Cefnogi cyfathrebu • Cefnogi dewisiadau iaith • Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth 5.2 Defnyddio gwerthusiad ar arfer personol o ddadansoddi mewn asesiad gwaith cymdeithasol i nodi eich cryfder eich hun a meysydd ar gyfer dysgu a datblygiad.

	5.3 Llunio eich cynllun dysgu a datblygiad proffesiynol eich hun.
	Ymyrraeth a chymhwyso dyfarniad proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth.
Deilliannau Dysgu	Meini prawf asesu, mae'r dysgwr yn gallu:
Deall y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chyfarwyddyd a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru	1.1 Gwerthuso sut mae polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol ac arweiniad wrth wraidd y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir yng Nghymru i gynnwys: • Deddfwriaeth bresennol yn un o'ch meysydd gwaith • Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion • Diogelu data a rhannu gwybodaeth • Cydsynio a datgelu 1.2 Nodi'r rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir yng Nghymru gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir: • yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig • yn yr Undeb Ewropeaidd • Y tu allan i'r UE
Yn gallu rheoli'ch rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	2.1 Nodi ffactorau a allai gynyddu'r cymhlethdod mewn gwaith cymdeithasol. 2.2 Gwerthuso sut y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau ac arweiniad i lywio eich arfer eich hun wrth ymdrin â sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth. 2.3 Ymarfer yn weithiwr cymdeithasol oddi mewn i ffiniau proffesiynol, cyfreithiol a sefydliadol mewn sefyllfa gymhleth. 2.4 Dangos dyfalbarhad a chadernid mewn ymyriadau mewn sefyllfa gymhleth. 2.5 Negodi ag eraill i wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth. 2.6 Gwneud argymhellion a phenderfyniadau yn unol â'ch lefel cyfrifoldeb eich hun mewn sefyllfaoedd cymhleth. 2.6 Defnyddio goruchwyliaeth i ystyried a rheoli ymyriadau a barnau proffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth. 2.7 Adfyfyrio'n feirniadol ar eich perfformiad eich hun mewn sefyllfaoedd cymhleth er mwyn:

	• Nodi meysydd o arfer da • Nodi meysydd y mae angen eu datblygu
Deall y rôl gwaith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion sydd mewn perygl	3.1 Esbonio'r polisiau a'r gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol perthnasol ynghylch diogelu oedolion. 3.2 Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod oedolyn sydd mewn perygl o niwed, esgeuluso neu gamddefnydd. 3.3 Disgrifio dangosyddion niwed, esgeuluso neu gam-drin i oedolion. 3.4 Esbonio pwysigrwydd pennu dewis ddeilliannau'r deilliannau diogelu ar gyfer: • defnyddiwr gwasanaeth a/neu ofalwr.
Deall y rôl gwaith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu plant sydd mewn perygl	4.1 Esbonio'r polisiau a'r gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol perthnasol ynghylch diogelu plant. 4.2 Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod oedolyn sydd mewn perygl o niwed, esgeuluso neu gamdriniaeth. 4.3 Disgrifio dangosyddion niwed, esgeuluso neu gam-drin i blant. 4.4 Esbonio pwysigrwydd pennu dewis ddeilliannau'r ymyrraeth ddiogelu ar gyfer: • defnyddiwr gwasanaeth a/neu ofalwr.
Yn gallu arfer y rôl gwaith cymdeithasol broffesiynol mewn ymyriadau diogelu	5.1 Cyflawni gydag eraill asesiad ynghylch diogelu naill ai oedolyn neu blentyn. 5.2 Cyfrannu i gynllun cymorth ac ymyrraeth ar gyfer oedolyn neu blentyn. 5.3 Cyfrannu i werthuso ymyriadau diogelu.
Yn gallu cyfrannu i brosesau cyfreithiol o fewn cylch gwaith gwaith cymdeithasol proffesiynol	6.1 Esbonio rôl a chylch gwaith y llysoedd oddi mewn i waith cymdeithasol gyda phlant ac oedolion. 6.2 Dadansoddi rôl gweithiwr cymdeithasol oddi mewn i brosesau'r llys ynghylch: • Oedolion • Plant 6.3 Cyfrannu i asesiad mewn achos lle gall fod prosesau cyfreithiol. 6.4 Cyfrannu i adroddiad a luniwyd ar gyfer prosesau cyfreithiol.
Yn gallu arfer atebolrwydd	7.1 Crynhoi gofynion atebolrwydd proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.

proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	7.2 Esbonio swyddogaethau a neilltuwyd ac a bennwyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. 7.3 Defnyddio'r cod ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth. 7.4 Defnyddio goruchwyliaeth ac arweiniad i adfyfrio'n feirniadol ar y canlynol: • Atebolrwydd proffesiynol • Datblygiad proffesiynol. 7.5 Cwblhau cofnodion ac adroddiadau cywir, cadarn, cydlynol a dadansoddol o ymyriadau gwaith cymdeithasol yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol. 7.6 Dilyn gweithdrefnau sefydliadol a sicrhau diogelwch personol yn y rôl broffesiynol
---	---

Atodiad 5:

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
Defnyddio'r Dadansoddi wrth Asesu er mwyn Llywio Ymyriadau**

2	Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwylio ac adfyfyrio
4	Arfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol
5	Rheoli problemau moesegol, dilemâu a gwrthdaro
7	Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol sy'n gysylltiedig â phobl
12	Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai sydd dan sylw
15	Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hyrwyddo annibyniaeth a chyfrifoldeb

Gweithio'n Gydweithredol gyda Defnyddwyr Gwasanaethau, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill

6	Arfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol
8	Paratoi ar gyfer ymwneud mewn gwaith cymdeithasol
9	Ymwneud â phobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
10	Cefnogi pobl i gymryd rhan mewn prosesau llunio penderfyniadau
11	Eiriol ar ran pobl
12	Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai sydd dan sylw
15	Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hyrwyddo annibyniaeth a chyfrifoldeb

Ymyrraeth a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth

2	Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwylio ac adfyfyrio;
3	Rheoli eich rôl yn weithiwr cymdeithasol proffesiynol;
4	Arfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol;
5	Rheoli problemau moesegol, dilemâu a gwrthdaro;
6	Arfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol;
7	Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol ynghylch pobl;
8	Paratoi ar gyfer ymwneud mewn gwaith cymdeithasol;
9	Ymwneud â phobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol;

10	Cefnogi pobl i gymryd rhan mewn prosesau llunio penderfyniadau;
11	Eiriol ar ran pobl;
12	Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rhai sydd dan sylw;
13	Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth
14	Cynllunio, mewn partneriaeth, i fynd i'r afael â materion byrdymor byr neu dymor hwy;
15	Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hyrwyddo annibyniaeth a chyfrifoldeb;
16	Cytuno ar gynlluniau lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth;
17	Defnyddio dulliau a modelau ymyriad gwaith cymdeithasol i hyrwyddo newid;
18	Defnyddio adnoddau i gefnogi atebion sy'n canolbwyntio ar y person;
19	Gwerthuso deilliannau arfer gwaith cymdeithasol.

Atodiad 6:

DEILLIANNAU DYSGU I ROI TYSTIOLAETH OHONYNT YM MHOB ADRAN PORTFFOLIO

Adrannau Portffolio 2 a 6 – Adolygiadau Datblygu	
Defnyddio'r dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
5. Yn gallu defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso'ch dadansoddi'ch hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol	5.2 Defnyddio gwerthusiad ar eich arfer dadansoddi personol mewn asesiadau gwaith cymdeithasol er mwyn nodi eich cryfderau eich hun a meysydd ar gyfer dysgu a datblygiad 5.3 Llunio eich cynllun dysgu a datblygu proffesiynol eich hun
Ymyrraeth a chymhwyso dyfarniad proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
2. Yn gallu rheoli'ch rôl yn weithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	2.8 Adfyfyrio ar eich perfformiad eich hun oddi mewn i sefyllfaoedd cymhleth er mwyn: nodi meysydd o arfer da; nodi meysydd y mae angen eu datblygu.
7. Yn gallu arfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	7.4 Defnyddio goruchwyliaeth ac arweiniad i adfyfyrio'n feirniadol ar: atebolrwydd proffesiynol; datblygiad proffesiynol.

Adran Portffolio 3 – Arsylwi ac adborth	
Defnyddio'r dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
2. Yn gallu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i gyflawni amrywiaeth o asesiadau	2.2 Wrth asesu, dangos cyfuniad o werthoedd gwaith cymdeithasol a'r cod ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a chynnwys sensitifrwydd o safbwynt diwylliant a dewis iaith
5. Yn gallu defnyddio myfyrion beirniadol i werthuso'ch dadansoddi'ch hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol	5.1 Defnyddio adfyfrio beirniadol i werthuso arfer personol mewn asesiadau gwaith cymdeithasol i gynnwys: rhoi llais defnyddiwr y gwasanaeth wrth galon yr asesu; arfer sy'n seiliedig ar werthoedd; arfer moesegol; hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth; cefnogi dewis iaith; cefnogi cyfathrebu; y fframwaith deddfwriaethol, polisiau a gweithdrefnau mewn gwaithb cymdeithasol; gwybodaeth sydd wedi ei chyd-destunoli i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn maes gwaith; defnyddio goruchwyliaeth; asesiad risg; sgiliau eraill a ddefnyddir wrth asesu.
Gweithio'n Gydweithredol gyda Defnyddwyr Gwasanaethau, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
1. Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr	1.1 Arddangos defnydd dulliau cyfathrebu llafar a rhai nad ydynt yn rhai llafar i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr 1.2 Ceisio cymorth os yw'r dull cyfathrebu a ddewisir y tu hwnt i allu'r gweithiwr 1.3 Arddangos sgiliau cyfathrebu sy'n cymryd i ystyriaeth ddewis iaith a diwylliant 1.4 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i gadarnhau bod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr wedi eu deall

Adran Portffolio 4 – Astudiaeth Achos Diogelu	
Defnyddio'r dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
1. Deall sut mae fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chyfarwyddyd yn cael eu defnyddio i lywio arfer asesu	1.1 Nodi'r fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol safonau ac arweiniad sy'n sail i arfer asesu mewn gwaith cymdeithasol 1.2 Gwerthuso'r berthynas rhwng arfer asesu a: fframweithiau deddfwriaethol; safbwyntiau damcaniaethol; safonau; arweiniad a phrotocolau. 1.3 Dadansoddi sut mae dulliau sy'n canolbwyntio ar y person yn dylanwadu ar arfer a phrosesau asesu 1.4 Dadansoddi sut mae asesu sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau'n cyd-fynd ag arfer asesu a phrotocolau cyfredol
2. Yn gallu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i gyflawni amrywiaeth o asesiadau	2.3 Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni asesiad amlddisgyblaethol gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac ar ddeilliannau 2.4 Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person ac ar ddeilliannau i asesu: anghenion defnyddiwr gwasanaeth; anghenion gofalwr; risg; 2.5 Cefnogi pobl i gymryd rhan mewn darganfod ffyrdd creadigol o wneud y canlynol: cyflawni newid; dod i atebion
3. Yn gallu cofnodi gwybodaeth asesiadau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau	3.1 Esbonio sut y defnyddir gwybodaeth a gofnodir i gefnogi'r dadansoddi a'r penderfyniadau a wneir 3.2 Cynnal cofnodion ysgrifenedig ac electronig sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau cyfredol 3.3 Dangos bod cofnodion asesu cywir, effeithiol, cydlynol a dadansoddol wedi eu cwblhau 3.4 Dadansoddi canlyniadau posibl os nad yw'r gwaith cofnodi yn gywir, yn gadarn, yn gydlynol nac yn ddadansoddol

4. Yn gallu gwneud dyfarniadau proffesiynol ar sail gwybodaeth asesu	4.1 Dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth asesu i lywio barnau proffesiynol 4.2 Arfer barnau proffesiynol am ddewisiadau, anghenion, risgiau a ffactorau amddiffynnol 4.3 Esbonio sut y bydd ystyriaethau moesegol yn llunio ein barnau ein hunain. 4.4 Esbonio'r rhesymwaith ar gyfer barnau proffesiynol. 4.5 Cyfiawnhau ein barnau proffesiynol i gynnwys: barn defnyddiwr gwasanaeth a/neu ofalwyr; dull sy'n canolbwyntio ar y person; dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. 4.6 Addasu eich barn broffesiynol eich hun pan gyflwynir tystiolaeth newydd
Gweithio'n Gydweithredol gyda Defnyddwyr Gwasanaethau, Gofalwyr a Gweithwyr Proffesiynol Eraill	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
1. Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr	1.5 Adlewyrchu dymuniadau a theimladau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn cofnodion, gohebiaeth a chynlluniau 1.6 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i helpu i reoli sefyllfaoedd lle mae gwewyr, gelyniaeth neu wrthwynebiad
2. Yn gallu gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill	2.1 Egluro rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol gweithwyr proffesiynol eraill 2.2 Cyfathrebu mewn modd sy'n parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol 2.3 Dangos sut i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn ei sefydliad ei hun a gyda gweithwyr proffesiynol eraill 2.4 Defnyddio'r protocolau sy'n penderfynu ar rannu gwybodaeth: yn ei sefydliad ei hun; rhwng asiantaethau yng nghyd-destun gwaith amlasiantaethol
3. Myfyrio'n feirniadol ar eich gwaith cydweithredol eich hun	3.1 Adfyfyrio'n feirniadol ar ei berfformiad ei hun wrth gydweithio, gan nodi meysydd o arfer da a'r rhai i'w datblygu wrth weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr; defnyddwyr gwasanaethau; gofalwyr; gweithwyr proffesiynol eraill

Ymyrraeth a chymhwyso dyfarniad proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
1. Deall y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chyarwyddyd a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru	1.1 Gwerthuso sut y mae polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau yn sail i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, i gynnwys: deddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i faes o'ch gwaith; diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion; diogelu data a rhannu gwybodaeth; cydsynio a datgelu. 1.2 Amlinellu'r rhyng-gysylltiad rhwng darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a darparu gwasanaethau cymdeithasol: yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig; yn yr Undeb Ewropeaidd; y tu allan i'r UE.
2. Yn gallu rheoli'ch rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	2.1 Nodi ffactorau a allai gynyddu'r cymhlethdod mewn gwaith cymdeithasol 2.2 Gwerthuso'r ffordd y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chanllawiau i lywio ymarfer personol wrth ymdrin â sefyllfaoedd cynyddol gymhleth 2.3 Ymarfer yn weithiwr cymdeithasol o fewn ffiniau proffesiynol, cyfreithiol a sefydliadol mewn sefyllfa gymhleth 2.4 Dangos dyfalbarhad a phendantwydd wrth ymyrryd mewn sefyllfa gymhleth 2.5 Negodi ag eraill i wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth. 2.6 Gwneud argymhellion a phenderfyniadau yn unol â lefelau cyfrifoldeb personol mewn sefyllfa gymhleth 2.7 Defnyddio gwaith goruchwyllo i ystyried a rheoli ymyriadau a barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth
NAILL AI, OS YW EICH ASTUDIAETH ACHOS AM DDIOGELU OEDOLION 3. Deall y rôl gwaith cymdeithasol broffesiynol	3.1 Esbonio polisiâu a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol ynghylch diogelu oedolion 3.2 Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod oedolyn mewn perygl o niwed, esgeuluso neu gamdriniaeth

yng nghyswllt diogelu oedolion	3.3 Disgrifio dangosyddion niwed, esgeuluso neu gamdrin i oedolion. 3.4 Egluro pwysigrwydd sefydlu canlyniadau dewisol yn sgil ymyriadau diogelu ar gyfer: defnyddwyr gofal; gofalwr
NEU, OS YW'R ASTUDIAETH AM DDIOGELU 4. Deall y rôl waith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu plant	4.1 Esbonio polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol ynghylch diogelu oedolion 4.2 Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod oedolyn mewn perygl o niwed, esgeuluso neu gamdriniaeth 4.3 Disgrifio dangosyddion niwed, esgeuluso neu gamdrin i blant. 4.4 Egluro pwysigrwydd sefydlu canlyniadau dewisol yn sgil ymyriadau diogelu ar gyfer: defnyddwyr gofal; gofalwyr.
5. Arfer y rôl gwaith cymdeithasol broffesiynol mewn ymyriadau diogelu	5.1 Cyflawni, gydag eraill, asesiad ynghylch diogelu naill ai oedolyn neu blentyn 5.2 Cyfrannu i gynllun cymorth ac ymyrraeth ar gyfer oedolyn neu blentyn 5.3 Cyfrannu i werthuso ymyriadau diogelu.
6. Cyfrannu i brosesau cyfreithiol o fewn cylch gwaith gwaith cymdeithasol proffesiynol	6.1 Esbonio rôl a chylch gwaith y llysoedd oddi mewn i waith cymdeithasol gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed 6.2 Dadansoddi rôl gweithiwr cymdeithasol oddi mewn i brosesau'r llys ynghylch: Plant; Oedolion. 6.3 Cyfrannu i asesiad mewn achos lle gall fod prosesau cyfreithiol 6.4 Cyfrannu i adroddiad a luniwyd ar gyfer prosesau cyfreithiol.
7. Arfer atebolrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	7.1 Crynhoi gofynion atebolrwydd proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol 7.2 Esbonio swyddogaethau a neilltuwyd ac a bennwyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol 7.3 Defnyddio'r Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth 7.5 Cwblhau cofnodion ac adroddiadau cywir, cadarn, cydlynol a dadansoddol ar ymyriadau gwaith

	cymdeithasol sy'n cydymffurfio â gofynion sefydliadol a chyfreithiol 7.6 Dilyn gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau diogelwch personol yn y rôl broffesiynol
--	---

Adran Portffolio 5 – Astudiaeth Achos Diogelu	
Ymyrraeth a chymhwyso dyfarniad proffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth	
<i>Deilliannau Dysgu</i>	<i>Meini prawf asesu</i>
NAILL AI, Os yw eich astudiaeth achos am ddiogelu OEDOLION 3. Deall y rôl gwaith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion	3.1 Esbonio polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol ynghylch diogelu oedolion
NEU, Os yw eich astudiaeth achos am ddiogelu PLANT 4. Deall y rôl gwaith cymdeithasol broffesiynol yng nghyswllt diogelu plant	4.1 Esbonio polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol ynghylch diogelu oedolion

Atodiad 7:

Y Rhaglen Gyfnerthu Porth Agored - Gweithdai Tystysgrif i Raddedigion

Cefndir

Mae'r rhaglen yn rhedeg pedwar gweithdy gorfodol dros gyfnod y rhaglen Cyfnerthu Tystysgrif i Raddedigion. Mae'r gweithdai wedi'u cynllunio i redeg ochr yn ochr â'r rhaglen ac i gynnwys cymysgedd o gyflwyniadau PowerPoint, ymarferion gwaith unigol a grŵp.

Dyluniwyd strwythur clir ar gyfer bob gweithdy er mwyn sicrhau cysondeb yn y dull y cyflwynir ac archwilir y wybodaeth allweddol ym mhob sesiwn. Mae hyn yn galluogi i'r dysgwyr ymuno â sesiwn yn unrhyw un o'r meysydd partneriaeth.

Mae gweithdai wedi'u cynllunio i ddilyn bob sesiwn yn y portffolio a rhoi cyfle i ddysgwyr adeiladu portffolio o waith ac archwilio themâu, yn ogystal â darparu ystafell ar gyfer cefnogaeth gan gyfoedion ac adlewyrchu ar ymarfer.

Fformat

Cyflwyniadau PowerPoint yn ymdrin â'r prif themâu.

Llyfrau gwaith gydag amrediad o ymarferion gwaith unigol a grŵp.

Rhoddir tasgau hunan-ddysgu ar ddiwedd bob gweithdy i'w cwblhau erbyn y sesiwn nesaf, e.e. gwaith ymchwil, darllen, gwylio fideos, ac ati.

Strwythur y Gweithdai - Trosolwg Cryno

- **Gweithdy 1** - Adlewyrchu'n Feirniadol, Adolygiad Datblygiadol (Adran 2), Cyflwyniad cryno i'r Arsylwad (Adran 3).
- **Gweithdy 2** - Diogelu (Adran 4 a 5) gan gynnwys deddfwriaeth, asesu, deilliannau dysgu a gwneud penderfyniadau proffesiynol. Diogelu mewn ardal nad yw'n brif ardal waith y dysgwr.
- **Gweithdy 3** - Gweithio ar y cyd gydag unigolion, teuluoedd, gofalcwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, y cyd-destun Cymreig, Arsylwi wrth ymarfer (Adran 3).
- **Gweithdy 4** - Adolygiad Datblygiadol (Adran 6), meini prawf marcio, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a deilliannau dysgu, proses gyflwyno. Sesiwn un i un gyda hyfforddwr/hwylusydd ar gyfer cyngor, cefnogaeth ac arweiniad.

Gweithdy 1	Cyflwyniad ac Adolygiad Datblygiadol - Adran 2 Nodau: • Cyflwyniad i strwythur: gweithdai, gofynion llawlyfr/portffolio a swyddogaeth y mentor. Cyflwyniad i'r tri Deiliant Dysgu: - Asesiad mewn sefyllfaoedd cymhleth, cydweithio a gwneud penderfyniadau proffesiynol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Adolygiad Datblygiadol a'r gofynion portffolio. Adfyfyrrio'n Feirniadol mewn Ymarfer • Yn cynnwys: Adlewyrchu mewn ymarfer, deallusrwydd emosiynol, defnyddio modelau adlewyrchol, sut i ddefnyddio adlewyrchiad mewn ysgrifennu adlewyrchol feirniadol, gan gynnwys y model DEAL ac ymchwilio rhai syniadau mwy cymhleth ynghylch ymarfer adlewyrchol. Adran 2 - Adolygiad Datblygiadol Nodau: Mae dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau er mwyn adnabod/cyfiawnhau eu nodau datblygiadol dros gyfnod y rhaglen, a chreu cynllun dysgu a datblygu proffesiynol sy'n ystyried: • Yr hyn sy'n bwysig i gefnogi dysgu yng nghyswllt cydweithio, asesu, ac atebolrwydd a gwneud penderfyniadau proffesiynol mewn sefyllfaoedd fwyfwy cymhleth - tri deiliant dysgu. • Y ffordd mae goruchwyliaeth, gwaith ymchwil, hyfforddiant ac unrhyw angen datblygiadol yn ymwneud â hyn. Cyflwyniad byr i'r Arsylwi mewn Ymarfer - Adran 3 Tasg hunan-astudio ar gyfer Gweithdy 2 • Gwaith ymchwil ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfwriaeth/polisi diogelu. • Trafod gyda mentor achos priodol posib ar gyfer aseiniad diogelu.
--------------------------	--

Gweithdy 2	Adran 4 - Diogelu - Astudiaeth achos ym mhrif faes gwaith y dysgwyr Nodau: • Archwilio'r fframwaith deddfwriaethol yng nghyswllt diogelu oedolion/plant. • Egluro'r gofynion yn ymwneud â'r aseiniad diogelu. • Adfyfrio'n feirniadol ar rai o'r tensiynau a gwrthdaro posib y gallai gweithwyr cymdeithasol eu profi wrth ymgysylltu â gwaith diogelu. • Diogelu a deddfwriaeth yn gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfwriaethau allweddol eraill. • Cysylltiadau asesiadau/diogelu gyda'r deilliannau dysgu (gan gynnwys; lechyd Meddwl, y Ddeddf Plant, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac ati). • Cyfeiriad at gyfraith ddomestig a rhyngwladol. • Byrddau diogelu. • Damcaniaethau gwaith cymdeithasol. Adran 5 - Diogelu - mewn maes nad yw'n brif faes gwaith y dysgwr. Nodau: • Archwilio dealltwriaeth o ddeddfwriaeth/polisi ar lefel genedlaethol/lleol/sefydliadol mewn diogelu oedolion/plant. • Adnabod ac adlewyrchu ar rai o'r elfennau tebyg a gwahanol rhwng diogelu gwaith cymdeithasol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Tasg hunan-astudio ar gyfer y gweithdy nesaf • Gwaith Ymchwil - gwylio fideos "Mwy na Geiriau" SCW ar MOODLE. • Ystyried gyda'u mentor achos priodol ar gyfer yr arsylwad.
--------------------------	---

Gweithdy 3	Cydweithio a Chyd-gynhyrchu Nodau: • Datblygu gwybodaeth am y cyd-destun ar gyfer gweithio/cyd-gynhyrchu ar y cyd. Yn cynnwys; deddfwriaethau perthnasol, ystyriaethau moesegol, newid cymdeithasol, adnabod anghydraddoldeb a dynameg pŵer, ADP/AOP. • Datblygu sgiliau, gwybodaeth a strategaethau er cydweithio/cyd-gynhyrchu effeithiol. • Deall sut i dystiolaethu'r deilliant dysgu: "Cydweithio gydag unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill." • Archwilio'r hyn mae gwaith ymchwil yn ei ddweud wrthym am sut mae unigolion yn gweld gweithwyr cymdeithasol a'r hyn y maen nhw ei eisiau/yn ei ddisgwyl gan wasanaethau. Y Cyd-destun Cymreig • Adlewyrchu'n feirniadol ar y pedwar clip fideo "Mwy na Geiriau". • Ystyried: Amrediad o enghreifftiau yn ymwneud â defnydd a dewis iaith, ac ymarfer sensitifrwydd diwylliannol. • Adlewyrchu ar brofiad personol ynghylch pam fod rhaid i iaith fod yn rhan annatod o asesiad a darpariaeth gwasanaeth, eu hegwyddorion mewn "Cynnig rhagweithiol." • Adlewyrchu'n feirniadol ar y dimensiwn penodol o weithio yng Nghymru, gan gynnwys yr heriau a wynebir o fewn y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. • Dangos dealltwriaeth o leoliad, diwylliant, sefydliadau a'r ieithoedd a siaredir yn ddaearyddol. Adran 3 - Arsylwi mewn Ymarfer Nodau: • Egluro'r gofynion yn ymwneud â'r arsylwad. • Adlewyrchu'n feirniadol ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o werthoedd a moeseg yng nghyswllt gwaith uniongyrchol gydag unigolion/teuluoedd/gofalwyr, gan gynnwys y Cod Ymarfer. • Ystyried swyddogaeth ac effaith dulliau cyfathrebu gweithwyr cymdeithasol ar eraill a modelau cyfathrebu. • Ystyried dulliau o gael adborth ystyrlon gan unigolion. Tasg hunan-astudio ar gyfer y gweithdy nesaf
--------------------------	---

	Cwblhau adrannau'r portffolio ac anfon neges e-bost ymlaen llaw at yr hyfforddwr er trafodaeth yng Ngweithdy 4.
--	---

Gweithdy 4	Adran 6 - Adolygiad Datblygiadol Nodau: • Cyswllt â chynllunio datblygiad proffesiynol. • Adlewyrchu ar ddatblygiad proffesiynol ers cwblhau adran 2, gan gynnwys cyfeiriad at yr hyfforddiant, dysgu, gwaith ymchwil a defnyddio goruchwyliaeth. Adnabod anghenion dysgu newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol yn y dyfodol. • Ailymweld â modelau adlewyrchu. • Ystyried datblygiad proffesiynol mewn perthynas a'r adborth gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr a sut y gall hyn fod wedi effeithio ar eich ymarfer. Cwblhau'r Portffolio • Meini prawf marcio a chysylltiadau â deilliannau dysgu a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. • Awgrymiadau ar gyfer llwyddiant. • Cyfrinachedd a Llên-ladrad. • Y Broses Gyflwyno. • Materion a phryderon parhaus. Sesiynau unigol gyda hyfforddwr/hwylusydd er arweiniad a chynghor ar waith y portffolio.
-------------------	---